

# Dogfen ir Cyhoedd



CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL

Dr Gwynne Jones  
Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro – Interim  
Managing Director

CYNGOR SIR YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL  
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices  
LLANGFNI  
Ynys Môn - Anglesey  
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500  
Ffacs / fax (01248) 750839

<b>RHYBUDD O GYFARFOD</b>	<b>NOTICE OF MEETING</b>
<b>PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU</b>	<b>AUDIT AND GOVERNANCE COMMITTEE</b>
<b>DYDD MAWRTH, 8 RHAGFYR 2015 am 2.00 o'r gloch y prynhawn</b>	<b>TUESDAY 8 DECEMBER, 2015 at 2:00 p.m.</b>
<b>SIAMBR Y CYNGOR, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGFNI</b>	<b>COUNCIL CHAMBER, COUNCIL OFFICES, LLANGFNI</b>
<b>Swyddog Pwyllgor</b>	<b>Ann Holmes 01248 752518 Committee Officer</b>

## **AELODAU / MEMBERS**

Cynghorwyr / Councillors:-

### **Annibynnol / Independent**

Jim Evans, Dafydd Rhys Thomas a Richard Owain Jones

### **Plaid Cymru / The Party of Wales**

John Griffith (Is-Gadeirydd/Vice-Chair), Alun W Mummery a Nicola Roberts

### **Grwp Chwyldroad/ Revolutionist Group**

Peter Rogers

### **Heb Ymaelodi/Unaffiliated**

R.Llewelyn Jones (Cadeirydd/Chair)

## **AELODAU LLEYG / LAY MEMBERS**

Mrs Sharon Warnes a Mr Richard Barker

## R H A G L E N

### 1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

### 2 **COFNODION CYFARFOD 23 MEDI, 2015** (Tudalennau 1 - 6)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 23 Medi, 2015.

### 3 **ARCHWILIAD YR ASIANTAETH SAFONAU BWYD** (Tudalennau 7 - 120)

Cyflwyno adroddiad Prif Swyddog Gwarchod y Cyhoedd.

### 4 **ARCHWILIO ALLANOL - LLYTHYR ARCHWILIO BLYNYDDOL 2014/15**

(Tudalennau 121 - 122)

Cyflwyno'r Llythyr Archwilio Blynyddol am 2014/15. (*Fersiwn Saesneg*)

### 5 **ARCHWILIO ALLANOL - TYSTYSGRIF CYDYMFFURFIO** (Tudalennau 123 - 128)

- Cyflwyno Tystysgrif Cydymffurfio ynglyn ag archwiliad asesiad Cyngor Sir Ynys Môn o berfformiad 2014/15.
- Cyflwyno diweddariad ar Raglen Waith Perfformiad Archwilio Allanol.

### 6 **ADRODDIAD CYNNYDD ARCHWILIO MEWNOL** (Tudalennau 129 - 156)

Cyflwyno adroddiad cynnydd Archwilio Mewnol hyd at 31 Hydref, 2015.

### 7 **ADOLYGU'R PROTOCOL ARCHWILIO MEWNOL** (Tudalennau 157 - 176)

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Archwilio Mewnol ynglyn ag adolygu'r Protocol Archwilio Mewnol i gynnwys archwiliadau dilyn i fyny.

## PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

### Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Medi, 2015

<b>YN BRESENNOL:</b>	Y Cynghorydd R. Llewelyn Jones (Cadeirydd) Y Cynghorydd John Griffith (Is-gadeirydd)  Y Cynghorwyr Jim Evans, Alun Mummery, Peter Rogers Dafydd Rhys Thomas
<b>WRTH LAW:</b>	Prif Weithredwr Pennaeth Adnoddau a Swyddog Adran 151 Dros Dro Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg (BHO) Pennaeth Archwilio Mewnol (MH) Rheolwr Archwilio (SP) Cyfrifydd Dros Dro (AK) (ar gyfer eitem 3) Swyddog Pwyllgor (ATH)
<b>YMDDIHEURIADAU:</b>	Y Cynghorydd Richard Owain Jones, Mr Richard Barker, Mrs Sharon Warnes (Aelodau Lleyg)
<b>HEFYD YN BRESENNOL:</b>	Mr Andy Bruce (Swyddfa Archwilio Cymru), Mr Martin George (Rheolwr Ymgysylltu – PwC)

---

#### 1. DATGAN DIDDORDEB

Fe wnaeth y Cynghorydd Peter Rogers ddatgan diddordeb personol fel ffermwr a thirfeddiannwr yn eitem 3 ar yr agenda mewn perthynas ag unrhyw ran o'r drafodaeth a allai gynnwys y stad mân-ddaliadau.

#### 2. COFNODION Y CYFARFOD AR 27 GORFFENNAF 2015

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 27 Gorffennaf 2015 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

Yn codi o'r cofnodion –

- Gan gyfeirio at ohebiaeth gyda Heddlu Gogledd Cymru ynghylch yr ymchwiliad i ymgais o dwyll yn erbyn y Cyngor fel rhan o ymgyrch ehangach o dwyll yn erbyn Awdurdodau Lleol yng Nghymru a Lloegr, dywedodd y Pennaeth Adnoddau a Swyddog Adran 151 Dros Dro nad oedd eto wedi derbyn yr ymateb manwl gan yr Heddlu. Roedd wedi adrodd ei fod yn disgwyl eu hymateb yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Gorffennaf, a chan ystyried bod dau fis wedi pasio erbyn hyn awgrymodd ei bod nawr yn briodol i ysgrifennu eto at y Prif Gwnstabl i gael sicrwydd bod yr ymchwiliad yn mynd yn ei flaen. Roedd y Pwyllgor yn cefnogi'r awgrym hwn a chynigiodd y dylid anfon yr ohebiaeth ymlaen at Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru gan ddarparu copi i Brif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru.

#### **CAM GWEITHREDU'N CODI: Y Pennaeth Adnoddau a Swyddog Adran 151 Dros Dro i ysgrifennu at Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ar y llinellau y cytunwyd arnynt.**

- Gan gyfeirio at ehangu rôl yr Aelodau Lleyg wrth benodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant, cadarnhaodd y Pennaeth Adnoddau a Swyddog Adran 151 Dros Dro fod y Prif Weithredwr wedi trafod y mater gydag Arweinyddion y Grwpiau Gwleidyddol ac y cytunwyd pan fyddai Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgor yn cael eu hethol nesaf, y byddai Aelodau Lleyg y Pwyllgor hwn yn cael eu gwahodd i gyfarfod gyda'r Arweinyddion Grwpiau ynghynt pan fydd y drafodaeth yn ymwneud ag ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

### 3. DATGANIAD CYFRIFON 2014/15 AC ADRODDIAD ISA 260

3.1 Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Adnoddau a Swyddog Adran 151 Dros Dro yn ymgorffori'r Datganiad Cyfrifon Terfynol ar gyfer 2014/15 i'r Pwyllgor eu hystyried. Roedd yr adroddiad yn cadarnhau y llwyddwyd i gyrraedd y terfyn amser statudol ar gyfer cwblhau cyfrifon wedi'u harchwilio am y bedwaredd flwyddyn yn olynol a bod y gwelliannau i'r broses archwilio a nodwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol wedi parhau, ac y rhoddwyd sylw prydlon a boddhaol i'r materion oedd yn codi o hynny.

Dywedodd y Pennaeth Adnoddau a Swyddog Adran 151 Dros Dro ei fod yn fodlon gyda'r modd y cynhaliwyd y broses o gau'r cyfrifon a disgwyliai y byddai barn archwilio ddiamed yn cael ei rhyddhau ar y cyfrifon ariannol.

Cyfeiriodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg at adrannau allweddol y cyfrifon oedd yn cynnwys y Datganiad Symudiad yn y Cronfeydd wrth Gefn; y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r Fantolen. Dywedodd y Swyddog fod y Gronfa Gyffredinol yn eithaf sefydlog ar £7.193m; mae cronfa wrth gefn y Cyfrif Refeniw Tai wedi cynyddu i £2.821m a chafwyd cynnydd cyffredinol hefyd mewn cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio.

3.2 Cyflwynwyd adroddiad yr Archwilydd Allanol ar ganlyniad archwiliad y Datganiadau Ariannol ar gyfer 2014/15 (Adroddiad dan ISA 260) i'r Pwyllgor ei ystyried.

Cadarnhaodd Mr. Martin George, Rheolwr Ymgysylltu, PwC, cyhyd ag y bydd y gwaith sy'n weddill fel yr amlinellir ym mharagraff 6 yr adroddiad yn cael ei gwblhau'n foddhaol, bod yr Archwilydd Cyffredinol ar ôl derbyn llythyr o gynrychiolaeth (yn seiliedig ar yr un a amlinellir yn Atodiad 1) yn bwriadu cyflwyno adroddiad archwiliad diamed ar y Datganiadau Ariannol (fel yn Atodiad 2). Ymhelaethodd yr Archwilydd ar y materion mwyaf arwyddocaol oedd yn codi o'r archwiliad a dygodd sylw'r Pwyllgor atynt fel y Pwyllgor sy'n goruchwyllo'r broses adrodd ariannol:

- Ni nodwyd unrhyw gamddatganiadau yn y datganiadau ariannol sydd heb eu cywiro.
- Mae Atodiad 3 yr adroddiad yn rhestru crynodeb o'r cywiriadau a wnaed i'r datganiadau ariannol drafft y mae'r Rheolwr wedi eu derbyn a gweithredu arnynt. Roedd nifer o'r cywiriadau hyn yn cynnwys ail-gategoreiddio ar y Fantolen nad yw'n effeithio ar y Gronfa Gyffredinol; nid yw'r addasiadau hynny sy'n ymwneud ag ailbriso eiddo yn effeithio ar y gronfa chwaith. Mae'r effaith net ar y Gronfa Gyffredinol yn £279k (roedd balans y Gronfa Gyffredinol yn y datganiad drafft wedi cael ei ddiwygio o £7.47 miliwn i lawr i £7.193m yn y datganiad terfynol).
- Roedd y risgiau archwilio sylweddol ac uwch a adnabuwyd yn ystod y broses gynllunio archwilio wedi derbyn sylw yn unol â'r gweithdrefnau a nodir yn y Strategaeth Archwilio Ariannol a nodir y canlyniad ym mharagraff 13 yr adroddiad. Adnabuwyd risg uwch ychwanegol mewn perthynas â chyfrifo'r ymarfer Arfarnu Swyddi a chynigwyd addasiad i'r modd yr ymdrinnir â hwn yn y cyfrifon. Bydd yr archwilydd yn parhau i fonitro'r maes hwn hyd nes caiff y cyfrifon eu harwyddo.
- Roedd paragraffau 16 i 40 yr adroddiad yn darparu'r canfyddiadau archwilio oedd yn deillio o archwilio'r meysydd sy'n destun risg gymedrol. Mae'r meysydd hynny'n ymwneud â rhagdybiaethau a'r fethodoleg Prisio Asedau Sefydlog; ymrwymadau pensiwn; ymrwymadau Tâl Cyfartal; Arfarnu Swyddi a darpariaeth Gwastraff.
- Yn ystod y broses archwilio, ni chanfuwyd unrhyw risg o gamddatganiadau sylweddol yn y datganiadau ariannol oherwydd twyll.
- Nid oedd unrhyw bryderon ynghylch agweddau ansoddol o ran arferion cyfrifo'r Awdurdod a'i arferion adrodd ariannol. Canfuwyd bod y wybodaeth a ddarparwyd yn berthnasol, yn ddibynadwy, yn gymeradwy ac yn hawdd i'w deall.
- Ni ddaeth yr Archwilydd ar draws unrhyw anawsterau sylweddol yn ystod yr archwiliad ac ni soniwyd am unrhyw faterion arwyddocaol gyda'r rheolwr yr oedd angen eu hadrodd i'r Pwyllgor.
- Er nad oedd yr Archwilydd wedi adnabod unrhyw wendidau arwyddocaol yn rheolaethau mewnol yr Awdurdod, tybir bod rhai meysydd lle gellid gwella rheolaethau ac fe wneir argymhellion i'r perwyl hwnnw yn Atodiad 4 yr adroddiad. Mae'r rhain yn ymwneud ag ailbriso asedau eiddo'r Cyngor a chywirdeb y wybodaeth a ddarperir yn y Dychwiliad Pensiwn Blynyddol i Gyngor Gwynedd.
- Adolygwyd Datganiad Llywodraethiant Blynyddol yr Awdurdod a chanfuwyd ei fod yn cydymffurfio â fframwaith CIPFA/SOLACE ar gyfer Cyflawni Llywodraethiant Dda mewn Llywodraeth Leol.

Roddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r wybodaeth a gyflwynwyd a gwnaeth y pwyntiau a ganlyn -

- Roedd y Pwyllgor yn cydnabod fod y cyfrifon wedi cael eu paratoi, eu cyflwyno a'u harchwilio o fewn yr amserlen statudol a'u bod yn gadarn o ran ansawdd. Roedd y Pwyllgor hefyd yn medru derbyn sicrwydd o safbwyntiau cadarnhaol yr Archwilydd Allanol ynghylch ansawdd arferion cyfrifo'r Awdurdod a'i arferion adrodd ariannol.
- Ceisiodd y Pwyllgor gadarnhad y byddai'r gwelliannau ymarfer a argymhellir gan yr Archwilydd Allanol ynghylch Ailbriso a Phensiynau yn cael eu gweithredu ac y byddai'r Pwyllgor yn derbyn diweddariad ar hynny. Cadarnhaodd y Pennaeth Adnoddau Dros Dro y byddai'r Pwyllgor yn derbyn adroddiad ar yr ymateb i argymhellion yr Archwilydd Allanol yn ei gyfarfod cyntaf yn y flwyddyn newydd.
- Gan gyfeirio at brisio asedau eiddo'r Cyngor a'r addasiadau a argymhellwyd gan yr Archwilydd Allanol mewn perthynas â hyn, holodd y Pwyllgor a ddylai'r Awdurdod geisio cael mewnbnw allanol arbenigol ynglŷn â phrisio ei bortffolio asedau. Dywedodd Mr. Martin George fod PwC yn defnyddio un o'i arbenigwyr prisio mewnol i ystyried y gwaith prisio a wneir gan yr Awdurdod er mwyn derbyn barn ar briodoldeb y prisiad. Caiff eiddo buddsoddi'r Awdurdod eu hailbriso'n flynyddol tra bod ei asedau gweithredol yn cael eu hailbriso'n barhaus. Mae prisiwr PwC wedi codi rhai pwyntiau penodol, ond yn amodol ar yr addasiadau a gynigir gan yr archwilwyr, y farn yw bod y prisiad yn briodol at ddibenion y cyfrifon. Cadarnhaodd y Pennaeth Adnoddau Dros Dro, fel y dengys yr adroddiad, bod Rheolwyr fel rhan o'u hymateb i'r argymhellion a wnaed yn ystyried yr opsiynau o ran darparu gwasanaethau ar gyfer prisiadau'r flwyddyn nesaf a byddant yn cynnwys hyn fel rhan o'r broses.
- Nododd y Pwyllgor fod y broses ar gyfer gwerthu asedau nad yw'r Awdurdod eu hangen wedi bod yn araf. Gofynnodd y Pwyllgor a oes gan yr Awdurdod atodlen o'r asedau hynny a restrwyd i'w gwerthu ac a yw'n monitro'r broses honno. Cadarnhaodd y Pennaeth Adnoddau a Swyddog Adran 151 Dros Dro fod yr Awdurdod wedi ffurfio Atodlen o'r fath a bod camau ar waith i farchnata asedau sydd ar werth a'u gwerthu'n llwyddiannus.

#### **Penderfynwyd –**

- **Argymhell i'r Cyngor Sir ei fod yn cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon ar gyfer 2014/15.**
- **Derbyn adroddiad yr Archwilydd Allanol ar archwiliad y Datganiadau Ariannol a nodi'r canfyddiadau ynddo**
- **Cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2014/15 a'i gyfeirio at Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr iddynt ei arwyddo.**

**CAM GWEITHREDU'N CODI: Y Pennaeth Adnoddau a Swyddog Adran 151 Dros Dro i gylchredeg yr atodlen o asedau'r Awdurdod sydd ar werth i Aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant.**

#### **4. ARCHWILIO ALLANOL – DIWEDDARIAD RHAGLEN WAITH PERFFORMIAD**

Rhoddodd Mr Andy Bruce, SAC ddiweddariad i'r Pwyllgor ar statws Raglen Waith Perfformiad Swyddfa Archwilio Cymru a oedd yn cynnwys eitemau gwaith dan Astudiaethau Llywodraeth Leol o 2014/15 at 2016/17; gwaith Asesu Archwiliad Gwella ar gyfer 2015/16 ac Astudiaethau Gwerth am Arian Cenedlaethol (yn unol â'r tabl ynghlwm).

Dygodd y Swyddog sylw at y pwyntiau a ganlyn -

- O ran astudiaethau a wneir ar sail Cymru gyfan, byddai'n ceisio tynnu gwybodaeth o'r astudiaethau hynny sy'n berthnasol i Ynys Môn a dod â'r wybodaeth i sylw'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.
- O ran y Rhaglen Astudiaethau Llywodraeth Leol 2016/17, mae'r broses o ddatblygu a ffurfio rhestr derfynol o bynciau astudio posib i ymgynghori arnynt ar y rhaglen waith yn y dyfodol yn mynd rhagddi. Wrth ddatblygu rhaglen o waith, bydd SAC yn ceisio adnabod beth fydd y meysydd astudio mwyaf defnyddiol i Awdurdod Lleol ac os na fydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cynnal astudiaeth leol bosib, byddai modd ei chynnal yn y flwyddyn ganlynol fel rhan o'r rhaglen leol os tybir bod hynny'n berthnasol ac yn ddefnyddiol yn lleol.
- O ran yr adolygiad Gwydnwch Ariannol, mae'r adborth drafft ar gyfer Ynys Môn yn bositif.
- Mae gwaith wedi dechrau ar yr adolygiad rheoli perfformiad ar feincnodi costau gwasanaethau cymdeithasol yn erbyn perfformiad ar draws y chwe Chyngor yng ngogledd Cymru a bydd hyn yn cynnwys trafodaethau manwl gyda phob Cyngor.

Cyfeiriodd y Pwyllgor at yr Astudiaeth Annibyniaeth Pobl Hŷn ac awgrymodd fod y rhaglen ar gyfer ad-drefnu darpariaeth gofal i bobl hŷn ar Ynys Môn efallai ar ei hôl hi o gymharu ag awdurdodau eraill a cheisiodd eglurhad ynghylch beth fyddai'r astudiaeth yn medru ei gyfrannu at symud y rhaglen hon yn ei blaen. Eglurodd Mr. Andy Bruce fod yr astudiaeth hon wedi'i hadnabod fel rhan o'r broses ymgynghori â chydranddeiliaid yn 2014/15 a'i bwriad ymysg pethau eraill fydd adnabod enghreifftiau o arfer dda y gellir eu mabwysiadu'n ehangach er mwyn rhoi sylw i'r materion sy'n codi yn y maes gwasanaeth hwn.

Gofynnodd y Pennaeth Adnoddau a Swyddog Adran 151 Dros Dro am y cyfle i Ynys Môn gael cyfrannu i'r Astudiaeth Gwerth am Arian Genedlaethol ar Gaffael Gyhoeddus a'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol. Dywedodd Mr. Andy Bruce fel arfer gydag astudiaethau o'r fath bod grŵp ymgynghori yn cael ei sefydlu sy'n cynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac yn ôl lle mae'r gwaith maes yn digwydd, defnyddir arbenigedd o blith grŵp adolygu sy'n cynnwys un ai swyddogion neu aelodau; fodd bynnag, gallai basio'r cais ymlaen gan Ynys Môn.

**Penderfynwyd nodi'r adroddiad a'r wybodaeth a gyflwynwyd.**

## **DIM CAMAU GWEITHREDU PELLACH YN CODI**

### **5. ADRODDIAD CYNNYDD ARCHWILIO MEWNOL**

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor ei ystyried, adroddiad y Rheolwr Archwilio Mewnol ar waith y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn ystod y cyfnod 1 Ebrill i 31 Awst 2015 sy'n berthnasol i Gynllun Archwilio 2015/16.

Dygodd y Rheolwr Archwilio Mewnol sylw at y prif bwyntiau a ganlyn –

- Roedd atodlen o'r targedau perfformiad am y cyfnod sy'n gorffen 31 Awst 2015 ynghlwm yn Atodiad A sy'n dangos fod y gwasanaeth ar darged yn gyffredinol
- Roedd y swydd wag yn y Tîm Archwilio Mewnol wedi cael ei llenwi bellach trwy benodiad.
- Roedd crynodeb o'r holl aseiniadau archwilio a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn hyd yma gan gynnwys gwaith sy'n mynd rhagddo o 2014/15 wedi'i amlinellu yn yr atodlen yn Atodiad D. Mae'r crynodeb yn nodi'r farn archwilio a'r argymhellion yng nghyswllt pob maes a adolygwyd a fydd yn ffurfio'r sail ar gyfer y farn yn y Datganiad Sicrwydd Blynnyddol o ba mor ddigonol ac effeithiol yw fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaethau mewnol yr Awdurdod ar gyfer 2015/16 ar y cyfan.
- Ers 1 Ebrill 2015 rhyddhawyd deg adroddiad terfynol o Gynllun Gweithredu Archwilio Mewnol 2014/15 a thri o Gynllun Gweithredu 2015/16.
- Ar gyfer dau o'r archwiliadau a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn hyd yma, aseswyd nad ydynt yn rhoi lefelau positif o sicrwydd. Yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2015 hyd at 31 Awst 2015 rhoddwyd sgôr o sicrwydd isel i'r Archwiliad Adfer Systemau TGCh mewn Trychineb ac aseswyd bod yr Archwiliad Rheoli Parhad Busnes yn rhoi sicrwydd cyfyngedig.
- Caiff argymhellion archwilio eu sgorio fel uchel, canolig neu isel yn ôl y risg ganfyddedig. Ar 4 Medi 2015, roedd 66% o'r argymhellion uchel a chanolig wedi cael eu gweithredu.
- Yn ôl adroddiad y cyn Reolwr Archwilio Mewnol i'r Pwyllgor ym mis Gorffennaf 2015, adnabuwyd fod angen cwblhau gwaith i wella sut rydym yn monitro ac yn adrodd ar gynnydd wrth weithredu argymhellion y cytunwyd arnynt. Bwriedir adolygu'r broses dilyn i fyny yn y Gwasanaeth Archwilio Mewnol er mwyn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor fod yr argymhellion a wnaed mewn adolygiadau Archwilio Mewnol yn cael eu gweithredu gan y Rheolwyr o fewn amserlenni cytunedig. Bydd adroddiad i'r perwyl hwnnw'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn fuan.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r adroddiad a nododd fod rhai o'r adolygiadau a restrir yn Atodiad D wedi'u cofnodi fel rhai sy'n darparu sicrwydd cyfyngedig neu isel e.e. Adfer Systemau TGCh mewn Trychineb, a gofynnodd am eglurhad ar y materion hyn. Dywedodd y Pennaeth Adnoddau a Swyddog Adran 151 Dros Dro fod rheoli Parhad Busnes, y mae Adfer Systemau TGCh mewn Trychineb yn rhan ohono, wedi bod yn bryder am amser maith i'r Cyngor ac wedi'i adnabod fel problem mewn adroddiadau archwilio blaenorol. Mae Rheolwr TGCh newydd wedi cael ei benodi erbyn hyn ac mae camau ar waith i ddarparu'r cyllid angenrheidiol iddo wella cadernid a threfniadau adfer systemau TGCh mewn trychineb. Disgwylir y ceir gwelliant sylweddol yn y maes hwn erbyn yr adolygiad archwilio nesaf.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys.**

## **DIM CAMAU GWEITHREDU PELLACH YN CODI.**

### **6. RHEOLI RISG**

Rhoddodd y Rheolwr Risg ac Yswiriant ddiweddariad i'r Pwyllgor ar y sefyllfa ddiweddaraf ynglŷn â Rheoli Risg -

- Mae'r Gofrestr Risg Gorfforaethol wedi cael ei diweddarau ar ddiwedd Chwarter 1 a chaiff ei hystyried gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn ei gyfarfod yr wythnos nesaf.
- Rhoddwyd dwy risg Wleidyddol newydd ymlaen i'r UDA eu hystyried (newidiadau i sefydlogrwydd gwleidyddol, ac ymateb Aelodau i gynigion Llywodraeth Cymru i ad-drefnu llywodraeth leol). Nid yw'r rhain o reidrwydd yn adlewyrchiad o'r sefyllfa wirioneddol ond cydnabyddir eu bod yn risgiau wrth symud ymlaen, ac yn achos y risg gyntaf, ystyrir ei bod yn berthnasol mewn sefyllfaoedd lle mae cydbwysedd gwleidyddol yn agos.
- Mae dwy risg wedi deillio o gofrestri risg y gwasanaethau, ac mae'r ddwy'n ymwneud â gallu'r Cyngor i gwrdd â'i gyfrifoldebau statudol. Y risg gyntaf yw'r risg i rai meysydd gwasanaeth petai toriadau pellach i'r gyllideb, ac mae'r ail risg yn deillio o gynnydd yn y galw am wasanaeth e.e. Gwasanaethau Plant, na chynlluniwyd ar ei gyfer.

Nododd y Pwyllgor y wybodaeth a gyflwynwyd a cheisiodd gadarnhad bod y gwasanaethau yn awr yn cymryd perchnogaeth ac atebolrwydd llawn am reoli risg ac asesu risg. Dywedodd y Rheolwr Risg ac Yswiriant fod y sefyllfa'n gwella.

Nododd y Pwyllgor hefyd fod ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gysylltiedig â phocedi o dai tlawd yn faes risg sy'n dod i'r amlwg, ac awgrymodd fod angen tynnu sylw at hyn. Dywedodd Mr. Andy Bruce, Swyddfa Archwilio Cymru, fod Bwrdd Cymunedau Diogel Gogledd Cymru wedi adnabod bod ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn tai yn broblem sylweddol ac yn faes risg uchel; dywedodd y Swyddog y gall gael effaith bosib ar adnoddau a gwasanaethau. Mae'r Bwrdd yn ceisio datrys y mater trwy un dull wedi'i gydlynw ar draws Gogledd Cymru. Dywedodd y Swyddog y byddai'n ceisio adnabod adborth perthnasol o'r astudiaeth Diogelwch Cymunedol i'w adrodd yn ôl i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio.

Dywedodd y Prif Weithredwr ei fod yn ymwybodol o'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Fwrdd Cymunedau Diogel Gogledd Cymru yn y cyd-destun hwn. Mae'r Awdurdod wedi cynnal trafodaethau gyda Heddlu Gogledd Cymru ar sut i ymateb yn lleol i'r her hon a bydd hyn yn cynnwys adolygu trefniadau mewnol yr Awdurdod i sicrhau eu bod yn cyfateb i'r gofynion newydd sy'n codi i'r dyfodol. Bydd ymateb ar sail amlasiantaethol yn agwedd allweddol er mwyn gallu mynd i'r afael â'r her hon yn llwyddiannus.

**Penderfynwyd nodi'r sefyllfa o ran Rheoli Risg a'r Gofrestr Risg Gorfforaethol.**

## **DIM CAMAU GWEITHREDU PELLACH YN CODI.**

**Y Cyngorydd R. Llewelyn Jones  
Cadeirydd**

This page is intentionally left blank



<b>CYNGOR SIR YNYS MÔN</b>	
<b>ADRODDIAD I</b>	<b>PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHIANT</b>
<b>DYDDIAD</b>	<b>8 RHAGFYR 2015</b>
<b>PWNC</b>	<b>ADRODDIAD YR ASIANTAETH SAFONAU BWYD AR Y GWASANAETH GORFODAETH CYFRAITH BWYD A BWYD ANIFEILIAID AR YNYS MÔN</b>
<b>SWYDDOG ARWEINIOL</b>	<b>PRIF SWYDDOG GWARCHOD Y CYHOEDD – DAVE RILEY</b>
<b>SWYDDOG CYSWLLT</b>	<b>PRIF SWYDDOG GWARCHOD Y CYHOEDD – DAVE RILEY</b>
<p><b>Natur a rheswm dros adrodd – Mae Adroddiad yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar Wasanaeth Gorfodaeth y Gyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid ar Ynys Môn yn dilyn archwiliad a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2014. Adroddwyd ar nifer o ganfyddiadau a arweiniodd at gyfres o argymhellion gan dîm archwilio'r Asiantaeth Safonau Bwyd. Ymatebwyd i'r rhain drwy Gynllun Gweithredu yn manylu ar y sylw a fyddai'n cael ei roddi i bob argymhelliad. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r adroddiad gwreiddiol gan yr ASB a'r Cynllun Gweithredu ac yn diweddarau'r Cynllun Gweithredu gyda manylion am y cynnydd hyd yma.</b></p>	

## **1. RHAGARWEINIAD**

- 1.1 Mae gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) y grym i osod safonau, monitro ac archwilio gwasanaeth gorfodaeth cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid awdurdodau lleol a hynny'n unol â Deddf Safonau Bwyd 1999 a'r Rheoliadau Swyddogol ar gyfer Rheoli Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Cymru) 2009. Cynhaliwyd yr archwiliad o'r gwasanaeth bwyd a bwyd anifeiliaid yng Nghyngor Sir Ynys Môn dan Adran 12(4) y Deddf a Rheoliad 7 y Rheoliadau.
- 1.2 Cynhaliwyd yr archwiliad gan yr ASB yn ystod yr wythnos yn cychwyn ar 14 Gorffennaf ac aeth ymlaen am 5 niwrnod. Bu'r ASB yn asesu cydymffurfiaeth yr awdurdod yn erbyn "Y Safon". Mae'r Safon yn rhan o Gytundeb Fframwaith yr ASB gydag awdurdodau lleol. Mae'r Cytundeb Fframwaith ar gael ar wefan yr ASB yn : [www.food.gov.uk/enforcement/enforcework/frameagree](http://www.food.gov.uk/enforcement/enforcework/frameagree)
- 1.3 Roedd yr archwiliad yn cynnwys trefniadau Ynys Môn ar gyfer darparu gwasanaethau glendid bwyd, safonau bwyd a gorfodi'r gyfraith bwyd anifeiliaid. Adain Gwarchod y Cyhoedd yn yr Adran Gynllunio a Gwarchod y Cyhoedd sy'n gyfrifol am y swyddogaethau hyn. Ar y pryd, roedd y gwaith yn cael ei wneud gan y timau Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach.
- 1.4 Derbyniodd yr awdurdod yr adroddiad ffurfiol ar 21 Gorffennaf 2015.

## **2. GWYBODAETH GEFNDIROL**

- 2.1 Mae adroddiad archwilio'r ASB (ynghlwm) yn edrych ar Wasanaeth Gorfodaeth Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid yr awdurdod lleol. Mae'r asesiad yn rhoi sylw i'r

systemau a'r gweithdrefnau sydd wedi cael eu sefydlu ar gyfer archwiliadau mewn busnesau bwyd a bwyd anifeiliaid, samplu bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolaeth fewnol, rheoli ac ymchwilio i achosion o glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd, cyngor i fusnesau, gorfodaeth, hyrwyddo diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid.

2.2 Mae prif ganfyddiadau'r archwiliad wedi eu cynnwys yn y Crynodeb Gweithredol a gellir eu crynhoi fel a ganlyn:

- Roedd yr awdurdod yn ddiweddar wedi adolygu ei strwythur rheoli er mwyn rhoi sylw i'r gostyngiad a ragwelwyd yng nghyllideb yr Adain Gwarchod y Cyhoedd am 2013-16.
- Roedd yr awdurdod wedi datblygu Cynllun Gwasanaeth Bwyd ar gyfer 2014/15. Nid oedd y cynllun hwn yn rhoi sylw llawn i'r nifer sylweddol o fusnesau yr oedd angen cynnal archwiliadau ynddynt o ran glendid bwyd, safonau a bwyd anifeiliaid. Mae angen darparu cymhariaeth o'r adnoddau staffio yn erbyn yr adnoddau staffio sydd ar gael i'r awdurdod er mwyn sicrhau bod adnoddau digonol ar gael i ddarparu lefel briodol o wasanaeth.
- Cadarnhaodd gwaith gwirio fod data-basau'r sefydliadau bwyd yn gywir yn gyffredinol a bod yr awdurdod wedi gallu anfon manylion electronig o System Monitro Gorfodaeth yr Awdurdod Lleol (LAEMS) i'r ASB.
- Nid oedd y trefniadau a nodwyd yn y Cynllun Gwasanaeth ar gyfer cyflawni rhaglen o archwiliadau cynlluniedig ar gyfer glendid bwyd, safonau bwyd a bwyd anifeiliaid yn cwrdd â gofynion Codau Ymddygiad y Gyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid. Ar adeg yr archwiliad, roedd nifer sylweddol o archwiliadau nad oeddynt wedi cael eu cynnal.
- O ran safonau bwyd a rheoliadau swyddogol, nid oedd modd bob amser i'r archwilwyr sefydlu a oedd busnesau wedi cael archwiliadau ar yr adegau cywir oherwydd nid oedd y cynllun sgorio risg a ddefnyddiwyd yn cyfateb i'r hwnnw a nodwyd yn Codau Ymddygiad ar gyfer y Gyfraith Bwyd a Phorthiant. Roedd nifer sylweddol o sefydliadau bwyd anifeiliaid wedi cael sgôr risg heb archwiliad sy'n golygu i bob pwrpas ei bod yn hen bryd i nifer sylweddol o sefydliadau gael ymyriad.
- Yn gyffredinol, mae cofnodiadau glendid bwyd wedi cael eu cynnal a'u cadw'n ddigonol. Nid yw cofnodiadau Safonau Bwyd a bwyd anifeiliaid yn cael eu cadw'n ddigonol ac mae nifer yn aml yn anghyflawn. Roedd hyn yn gwneud monitro mewnol effeithiol yn anodd a gall hyn gael effaith ar allu swyddogion i fabwysiadu ymagwedd raddedig tuag at orfodaeth.
- Roedd yr awdurdod wedi bod yn rhagweithiol o ran darparu cyngor a chanllawiau i fusnesau bwyd a bwyd anifeiliaid a hyrwyddo diogelwch bwyd gan ddefnyddio amryw o gyfryngau a digwyddiadau cyhoeddus.
- Roedd rhywfaint o dystiolaeth o waith monitro mewnol ar gyfer gwasanaethau glendid bwyd, safonau a bwyd anifeiliaid, fodd bynnag, roedd angen eu datblygu ymhellach fel y gallai'r awdurdod ddilysu ei gydymffurfiaeth â holl elfennau'r Safon, y Codau Ymddygiad perthnasol, canllawiau a gyhoeddwyd yn ganolog a pholisïau a gweithdrefnau'r awdurdod ei hun.

2.3 O ganlyniad i'r canfyddiadau, cyflwynodd y gwasanaeth Gynllun Gweithredu yn rhoi sylw i'r holl argymhellion manwl yn adroddiad yr ASB. Mae wedi ei gynnwys yn y prif adroddiad gan yr ASB fel Atodiad A.

- 2.4 Cychwynnodd gwaith i roi sylw i'r argymhellion yn dilyn y sesiwn atborth anffurfiol a gynhaliwyd gan archwilwyr yr ASB ar 18 Gorffennaf 2014. Mae'r Cynllun Gweithredu wedi bod yn ddogfen "fyw" ac wedi cael ei diweddarau'n rheolaidd wrth i'r camau y cytunwyd arnynt gael eu cwblhau. Mae'r fersiwn ddiweddaraf o'r Cynllun Gweithredu ynghlwm wrth yr adroddiad hwn - atodiad 1 .
- 2.5 Mae mwyafrif yr argymhellion o natur trefniadol ac wedi cael sylw. Pa fodd bynnag, mae'r angen adnoddau staff digonol I gyflawni yr archwiliadau hylendid bwyd, safonau bwyd a hylendid porthiant, yn achosi pryder. Mae'r dadansoddiad cyfredol or baich gwaith yn dangos angen adnoddau staff uchwanegol, sef 2 swyddog. Un I gyflawni archwiliadau Heulendid bwyd, ac un I gyflawni archwiliadau safonau bwyd a hylendid porthiant. Pa fodd bynnag fydd angen dadansoddiad pellach, ac profi gweithredol I gadarnhau'r dadansoddiad. Yn dilyn yr archwiliad a newidiadau gweithdrefn, mae swyddogion yn darganfod fod angen mwy o amser I gyflawni archwiladau.
- 2.6 Mae'r gwasanaeth yn mynd drwy gyfnod o drawsnewid er mwyn rhoi sylw i heriau o'r fath. Fodd bynnag, hyd yn oed gyda gweithlu mwy ystwyth, modern a hyblyg, bydd bwlch o ran adnoddau. Mewn amgylchedd lle mae'r cyllidebau'n gostwng, mae hyn yn ganlyniad anorfod. Y mesur lliniaru yw sicrhau bod tystiolaeth a gwybodaeth dda ar gael o ran y flaenoriaeth ar roddir o ran y defnydd o adnoddau staffio. Mae'n bwysig ein bod yn cyfiawnhau'r hyn yr ydym yn ei wneud ac, yr un modd, yr hyn na fedrwn ei wneud ar gyfer y cyhoedd a busnesau ar Ynys Môn ynghyd â'r cyrff hynny sy'n sgriwteiddio ein gwaith.
- 2.7 Bydd yr ASB yn dychwelyd i asesu'n ffurfiol ein cynnydd yn erbyn yr adroddiad llawn cyn 31 Mawrth 2016. Bydd hyn yn cynnwys ymweliad safle a byddant wedyn yn paratoi adroddiad a fydd, unwaith eto, yn cael ei gyhoeddi.

### 3. CASGLIAD

- 3.1 Mae Adroddiad yr ASB ar y Gwasanaeth Gorfodi'r Gyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid ar Ynys Môn yn dwyn sylw at y meysydd hynny y mae'n rhaid i'r awdurdod eu gwella er mwyn cwrdd â gofynion y Safon ar gyfer Rheoliadau Swyddogol mewn perthynas â Bwyd a Bwyd Anifeiliaid sy'n ofynnol o awdurdodau lleol.
- 3.2 Mae'r awdurdod wedi cynhyrchu Cynllun Gweithredu i symud ymlaen gyda'r gwelliannau hyn ac mae'r cynllun wedi cael ei gymeradwyo gan yr ASB.
- 3.3 Mae'r Cynllun Gweithredu sydd wedi ei ddiweddarau yn dangos fod cynnydd da wedi cael ei wneud hyd yma ac mae'r gwasanaeth yn rhagweld y gall gyflawni'r rhan fwyaf o'r camau gweithredu a awgrymwyd erbyn yr adeg y bydd yr ASB yn dychwelyd ym mis Mawrth 2016.
- 3.4 Mae'r gwasanaeth gorfodaeth Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid bellach yn cael ei ddarparu ar sail gydweithredol ar draws Gogledd Cymru ac mae'n cwrdd â'r argymhellion a nodwyd yn adroddiad yr ASB.
- 3.5 Mae diffyg adnoddau staffio i gwrdd â'r targed o ran nifer yr archwiliadau Glendid Bwyd a Safonau Bwyd a gynhelir yn parhau i achosi pryder yn erbyn cyllideb sy'n gostwng ar gyfer y gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd.

**Atodiad 1- Cynllun Gweithredu ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn  
 Dyddiad Archwilio: 14-18 Gorffennaf 2014**

Tudalen 10

<b>RHOI SYLW I (ARGYMHELLIAD GAN GYNNWYS PARAGRAFF Y SAFON)</b>	<b>GAN (DYDDIAD)</b>	<b>GWELLIANNAU ARFAETHEDIG</b>	<b>CAMAU A GYMERWYD HYD YMA</b>
<p>3.21 Dylai'r awdurdod:</p> <p>i) Sicrhau bod Cynlluniau Gwasanaeth Gorfodaeth ar gyfer Bwyd a Bwyd Anifeiliaid yn y dyfodol yn cael eu datblygu yn unol â'r Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth yn y Cytundeb Fframwaith. Dylid cynnwys dadansoddiad o'r adnoddau sydd eu hangen yn erbyn y rhai sydd ar gael, a chynlluniau i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion a nodwyd. [Y Safon - 3.1]</p> <p>ii) Ymdrin ag unrhyw amrywiad o ran bodloni'r Cynllun Gwasanaeth mewn cynlluniau gwasanaeth dilynol.[Y Safon-3.3]</p>	<p>31/7/15</p> <p>31/7/15</p>	<p>Cynhyrchu cynllun gwasanaeth 15/16 yn unol â COP sy'n mynd i'r afael â'r adnoddau sydd eu hangen i gynnal y polisi ymyrraeth ac yn nodi'r adnoddau sydd ar gael. Mae angen i'r cynllun gynnwys cyfeiriad at waith y dylem fod yn ei wneud yn ychwanegol at y gwaith sydd wedi'i wneud. Nodi'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r cynllun gwasanaeth yn erbyn y rhai sydd ar gael a chynllunio i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg o ran adnoddau</p> <p>Rhoi sylw i'r amrywiad drwy gynnwys yr adnoddau sydd eu hangen i wneud iawn am y diffyg yn y dadansoddiad ar gyfer cynllun 15/16.</p> <p>Cynllun 15/16 i gynnwys amcangyfrif o'r adnoddau sydd eu hangen yn erbyn yr adnoddau gwirioneddol. Angen eglurhad gwell o'r diffyg o ran archwilio ac ati.</p> <p>Rhoi sylw i'r amrywiad drwy gynnwys adnoddau sydd eu hangen i wneud iawn am y diffyg yn y</p>	<p><b>Dadansoddiad o'r diffyg wrthi'n cael ei gynnal. Ymgysylltu ym mhrosiect bwyd anifeiliaid Gogledd Cymru. Mae'r ASB yn goruchwylio'r prosiect ac yn fodlon bod y dull hwn yn mynd i'r afael â'r diffygion o ran materion sy'n ymwneud â chyflawni gweithgareddau Gorfodaeth Bwyd Anifeiliaid ar Ynys Môn.</b></p> <p><b>Dadansoddiad o'r diffyg wrthi'n cael ei gynnal. Ymgysylltu ym mhrosiect bwyd anifeiliaid Gogledd Cymru</b></p>

		dadansoddiad ac ymrwymo i fynd i'r afael â'r amrywiad ar gyfer cynllun 15/16.	
5.16 Dylai'r awdurdod:			
Adolygu a diwygio'r weithdrefn awdurdodi i gynnwys cyfeiriad at y trefniadau ar gyfer hyfforddiant gloywi a monitro ar gyfer swyddogion newydd gymhwyso ac sy'n dychwelyd, yn unol â gofynion y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon - 5.1]	<i>Wedi'i gwblhau</i>  <i>Diwedd 3/16</i>	Diwygio'r drefn i gyfeirio at hyfforddiant, monitro swyddogion sydd newydd gymhwyso a'r rhai sy'n dychwelyd ar ôl absenoldeb. Sicrhau bod y SIA Bwyd sy'n dychwelyd o absenoldeb mamolaeth yn cael 10 awr o DPP	<b>Wedi'i gwblhau</b>
i) Adolygu a diwygio awdurdodiadau swyddogion safonau bwyd a bwyd anifeiliaid i gynnwys y ddeddfwriaeth briodol swyddogol ar reoli Bwyd a Bwyd Anifeiliaid i wneud y gwaith a nodir yn y Cynllun Gwasanaeth. Diwygio awdurdodiad y Swyddog Gorfodaeth Safonau Masnach sydd heb gymhwyso i adlewyrchu eu cymhwysedd, yn unol â'r Codau Ymarfer. Sicrhau nad yw dyletswyddau swyddogion safonau bwyd a bwyd anifeiliaid yn mynd y tu draw i'w hawdurdodiadau. [Y Safon - 5.3]	<i>Wedi'i gwblhau</i>  <i>Wedi'i gwblhau</i>	Diwygio'r awdurdodiad i gynnwys deddfwriaeth briodol: Rheoliadau Swyddogol Rheoli Bwyd a Bwyd Anifeiliaid 2009.  Tynnu Awdurdodiad y Swyddog Gorfodi SM, bydd y prosiect cyflawni bwyd anifeiliaid Gogledd Cymru'n rhoi sylw i hwn.	<b>Wedi'i gwblhau</b>  <b>Wedi'i gwblhau</b>
ii) Penodi nifer ddigonol o swyddogion hylendid bwyd a safonau bwyd a awdurdodiad addas i wneud y gwaith a nodwyd yn y Cynllun Gwasanaeth a	<i>31/03/16</i>	Yn dilyn y dadansoddiad yn y cynllun gwasanaeth, bydd adnoddau staffio yn cael eu hadolygu a bydd cais yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith	<b>Ar hyn o bryd nid oes gan y gwasanaeth ddigon o swyddogion i fodloni'r gofyniad hwn. Unwaith y</b>

<p>sicrhau eu bod yn cael eu hawdurdodi o dan y ddeddfwriaeth briodol. Dylai lefel awdurdodiad swyddogion bwyd anifeiliaid fod yn gyson â'u cymwysterau. [Y Safon - 5.3]</p> <p>iii) Sicrhau bod pob swyddog hylendid bwyd awdurdodedig yn derbyn 10 awr o hyfforddiant Datblygiad Proffesiynol Parhaus, yn unol â'r Cod Ymarfer.[Y Safon - 5.4]</p> <p>iv) Cadw cofnodion o gymwysterau, hyfforddiant a phrofiad perthnasol pob swyddog awdurdodedig a staff cymorth priodol yn unol â'r Codau Ymarfer perthnasol.[Y Safon - 5.5]</p>	<p>3/16</p> <p><i>Wedi'i gwblhau</i></p>	<p>am y swyddogion ychwanegol angenrheidiol. <b>(argaeledd adnoddau i wneud hyn)</b></p> <p><b>Sicrhau bod hyfforddiant ar gyfer pob aelod o staff gydag o leiaf 10 awr o DPP</b></p> <p>Adolygu ffeiliau swyddogion unigol a chymryd camau cywirol.</p>	<p><b>bydd y Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd wedi'i ailstrwythuro, bydd dadansoddiad pellach yn cael ei gynnal i asesu cydymffurfiaeth.</b></p> <p><b>Yn parhau</b></p> <p><b>Wedi'i gwblhau</b></p>
<p>6.8 Dylai'r awdurdod:</p> <p>i) Sicrhau bod y cyfleusterau a'r offer angenrheidiol sydd eu hangen i gyflawni'n effeithiol yr holl weithgareddau sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth bwyd anifeiliaid ar gael. [Y Safon - 6.1]</p> <p>ii) Diwygio'r weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer graddnodi offer mesur tymheredd i gynnwys manylion ynghylch pa mor aml y dylid cynnal profion ar yr holl ddyfeisiau,</p>	<p><i>Wedi'i gwblhau</i></p> <p><i>Wedi'i gwblhau</i></p>	<p>Rhannu / prynu'r offer angenrheidiol: cynion a thiwbiau samplu ar gyfer hylifau. Efallai y bydd gan y prosiect cyflawni ar gyfer bwyd anifeiliaid yng Ngogledd Cymru'r adnoddau sydd eu hangen.</p>	<p>Prosiect Bwyd Anifeiliaid Gogledd Cymru yn rhoi sylw i'r gofynion o ran offer</p> <p>Y weithdrefn wedi ei diwygio ac yn cyfeirio yn awr at oddefgarwch o +/- 0.5 C Cafwyd gwared ar</p>

<p>gweithredu tymheredd ar gyfer offer oeri a sicrhau bod unrhyw oddefgarwch yn cydymffurfio'r gyda'r canllawiau a gyhoeddir yn ganolog.[Y Safon - 6.2]</p>			<p>thermomedrau nad ydyn tyn cael eu defnyddio mwyach a chyflwynwyd siart newydd ar gyfer logio ar gyfer logio gwiriadau thermomedr UV. Tymheredd oergell wedi eu cofnodi ar y ffurflen</p>
<p>7.26 Dylai'r awdurdod:</p> <p>i) Sicrhau bod archwiliadau sefydliadau yn cael eu cynnal yn ôl gofynion sylfaenol a bennwyd yn y Côd Ymarfer Cyfraith Bwyd.[Y Safon -7.1]</p> <p>ii) Sicrhau bod archwiliadau llawn a strategaethau gorfodi amgen yn cael eu cynnal yn unol â Chôd Ymarfer Cyfraith Bwyd, arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog, a pholisïau a gweithdrefnau'r awdurdod.[Y Safon - 7.2]</p> <p>iii) Asesu cydymffurfiad sefydliadau yn ei ardal at y safonau a ragnodir yn gyfreithiol; a chymryd camau priodol mewn perthynas ag unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth, yn unol â Pholisi Gorfodaeth yr awdurdod.[Y Safon -7.3]</p>	<p><b>Wedi'i gwblhau</b></p> <p><b>30/03/17</b></p> <p><b>Wedi'i gwblhau</b></p>	<p>Dyma'r angen i gynnal archwiliadau o fewn 28 diwrnod o'r dyddiad angenrheidiol - Methu cydymffurfio ar hyn o bryd, oni bai fod staff ychwanegol ar gael, neu ganiatáu amser ar gyfer "dal i fyny". Bydd cais yn cael ei wneud am adnodd tymor byr i fod ar gael i "ddal i fyny"</p>	<p>Mae'r holl adeiladau gradd B wedi cael eu dwyn ymlaen yn y rhaglen archwilio. Mae staff yn awr sicrhau bod sefydliadau gradd B yn cael blaenoriaetho ran archwilio.</p> <p>Sefydliadau gradd A a B yn cael eu harchwilio o fewn 28 diwrnod o'r dyddiad angenrheidiol a'r lleill yn cael eu harchwilio cyn gynted â phosib</p> <p>Ffurflen archwilio "Fer" wedi cael ei hymestyn a'u haddasu i gynnwys manylion ychwanegol</p>

<p>iv) Diwygio ei Weithdrefn Ymyriadau Bwyd mewn perthynas â Strategaethau Gorfodaeth Amgen (AES) i gynnwys manylion am y meini prawf a ddefnyddir i asesu holiaduron a gwblhawyd ac i nodi'r sbardunau ar gyfer ymgymryd â mathau eraill o ymyriadau.[Y Safon - 7.4]</p> <p>v) Sicrhau bod sylwadau a wnaed yn ystod archwiliad, yn enwedig mewn perthynas â gwiriadau a wnaed i wirio ffynonellau bwyd ac i ddangos bod ystyriaeth wedi'i rhoi i fwydydd a fewnforiwyd, yn cael eu cofnodi mewn modd amserol er mwyn atal colli gwybodaeth berthnasol.[Mae'r Safonau - 7.5]</p>	<p><b>Wedi'i gwblhau</b></p> <p><b>Wedi'i gwblhau</b></p>		<p>Diwygiwyd y weithdrefn i gynnwys cyfarwyddyd ynghylch holiaduron nad ydynt yn cael eu dychwelyd ac mae angen i SIA lofnodi'r diweddariad/ymweld</p> <p>Ffynhonnell a chyfeirnod Bwyd a Fewnforir yn awr ar y Ffurflen Arolygu</p>
<p>7.34 Dylai'r awdurdod:</p> <p>i) Sicrhau y cynhelir archwiliadau ar longau yn unol â Chôd Ymarfer Cyfraith Bwyd, arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog, a pholisïau a gweithdrefnau'r awdurdod.[Y Safon - 7.2]</p> <p>ii) Sicrhau bod sylwadau a wnaed yn ystod archwiliad, yn cael eu cofnodi mewn modd amserol er mwyn atal colli gwybodaeth berthnasol.[Mae'r Safonau - 7.5]</p>	<p><i>Wedi'i gwblhau</i></p> <p><i>Wedi'i gwblhau</i></p>	<p>Bydd yn gadael Ffurflen APHA ar bob ymweliad, hyd yn oed os dim ond i ganfod a oes rhywun wedi ei harchwilio mewn porthladd arall.</p> <p>Fel yr uchod</p>	<p>Cynhaliwyd archwiliadau yn ddiweddar ar fferïau preswyl, ac roedd y ffurflen APHA yn cael ei defnyddio bob amser.</p>



7.50 Dylai'r awdurdod:				
i)	Sicrhau bod archwiliadau safonau bwyd ymyriadau yn cael eu cynnal yn ôl amlder nad yw'n llai na'r hyn o bennir dan y cynllun graddio archwiliadau a nodir yn y Côd Ymarfer Cyfraith Bwyd.[Y Safon - 7.1]	<i>Wedi'i gwblhau</i>	Cynllun graddio risg NTSB wedi cael ei fabwysiadu, sy'n gyfwerth â'r cynllun sgorio COP. Gwaith yn parhau ar gronfa ddata.	Mabwysiadu cynllun NTSB 14/15
ii)	Gweithredu cynllun graddio risg archwiliadau safonau bwyd yn unol â'r cynllun a sefydlwyd dan atodiad V o'r Côd Ymarfer Cyfraith Bwyd.[Y Safon -7.2]	31/7/15	Bydd cynllun gwasanaeth ar gyfer 2015/16 yn cynllunio archwiliadau yn unol â'r cynllun.	Cynllun gwasanaeth yn y broses o gael ei gwblhau
iii)	Rhoi adroddiad i fusnesau bwyd ar ôl pob archwiliad / ymyriad, datblygu a gweithredu polisi ymyrraeth ar gyfer sefydliadau safonau bwyd heb eu graddio neu sydd â nad oes modd eu harolygu, sicrhau bod sefydliadau safonau bwyd ond yn cael eu harchwilio gan swyddogion awdurdodedig priodol a sicrhau bod ymweliadau ac ail ymweliadau y rhoddir gwybod amdanynt yn cael eu cynnal yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, Côd Ymarfer, arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog a pholisiau a gweithdrefnau'r awdurdod ei hun.[Y Safon -7.2]	31/7/15	Templed adroddiad archwilio newydd i gael ei ddefnyddio.  Mae polisi ymyrraeth ar gyfer adeiladau risg heb eu graddio neu risg isel yn cael ei ddatblygu.  Bydd y dyletswyddau Ymyrraeth yn cael eu dyrannu yn unol â'r cynllun, i swyddogion awdurdodedig priodol	Mabwysiadwyd adroddiadau newydd  Polisi wedi ei sefydlu, wrthi'n asesu adeiladau ar hyn o bryd i asesu sgôr y risg
iv)	Cymryd camau priodol ar unrhyw			Adolygu'r cyfarfod a

<p>ddiffyg cydymffurfio a geir mewn sefydliadau safonau bwyd, yn unol â pholisi gorfodi'r awdurdod.[Y Safon -7.3]</p> <p>v) Sefydlu polisi ail ymweliad sy'n cydymffurfio â Chôd Ymarfer Cyfraith Bwyd.[Y Safon - 7.4]</p> <p>vi) Sicrhau bod cofnodion a gymerodd swyddogion ar y pryd o archwiliadau safonau bwyd yn cael eu cofnodi mewn modd amserol a'u storio mewn modd sy'n golygu bod modd cael gafael arnynt eto.[Y Safon -7.5]</p>	<p><i>Wedi'i gwblhau</i></p> <p><i>Wedi'i gwblhau</i></p> <p><i>Wedi'i gwblhau</i></p>	<p>Adolygu camau gweithredu blaenorol gyda'r swyddog perthnasol a chynnal hyfforddiant adolygu yn ôl yr angen.</p> <p>Dyfeisio polisi ailymweld yn unol â 7.4 y safon.</p> <p>Data a gesglir ar ffurflenni archwilio electronig i gael eu cysylltu â system CIVICA Defnyddiwch ffurflenni 'cymorth cof' i gofnodi sylwadau yn ystod archwiliadau a'r un modd ar gyfer ffurflenni archwilio bwyd anifeiliaid</p>	<p>gynhaliwyd gyda'r swyddog lle cadarnhawyd dealltwriaeth o weithdrefnau a pholisïau. Trafododd y canlyniadau disgwylidig os yw sefyllfa debyg yn codi.</p> <p>Wedi'i gwblhau</p>
<p>7.63 Dylai'r awdurdod:</p> <p>i) Sicrhau bod ymyriadau ac archwiliadau o sefydliadau bwyd anifeiliaid yn cael eu cynnal mor aml ag a bennir gan y Côt Ymarfer Gorfodi Cyfraith Bwyd Anifeiliaid.[Y Safon - 7.1]</p> <p>ii) Cynnal archwiliadau / ymyriadau a chymeradwyo neu gofrestru sefydliadau bwyd anifeiliaid yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol a'r Côt Ymarfer Cyfraith Bwyd Anifeiliaid a chanllawiau a gyhoeddwyd yn ganolog.[Y Safon -</p>	<p><i>Wedi'i gwblhau</i></p> <p><i>Wedi'i gwblhau</i></p>	<p>Bydd prosiect cyflawni bwyd anifeiliaid Gogledd Cymru yn dyrannu ymyriadau.</p> <p>Bydd yn mabwysiadu polisïau a gweithdrefnau o brosiect Gogledd Cymru ac yn defnyddio swyddogion a awdurdodwyd yn briodol.</p>	<p>Mae'r Swyddog Arweiniol ar Fwyd Anifeiliaid wedi mynychu cyfarfodydd i sefydlu rhaglen Gogledd Cymru. Rhaglen gynlluniedig wedi ei sefydlu ac yn cael ei rhoi ar waith.</p> <p>Wedi'i gwblhau</p>

<p>7.2]</p> <p>iii) Sicrhau y cymerir camau priodol i ddilyn i fyny diffyg cydymffurfiaeth yn unol â'r Polisi Gorfodi.[Y Safon - 7.3]</p> <p>iv) Sicrhau bod gweithdrefnau ysgrifenedig ynghylch archwilio sefydliadau bwyd anifeiliaid yn cael eu datblygu'n llawn yn unol â'r Côd Ymarfer ar gyfer Gorfodi'r Gyfraith Bwyd Anifeiliaid. Datblygu gweithdrefnau ysgrifenedig ar gyfer archwiliadau sy'n ymwneud â chyd-gynhyrchion, sefydliadau, bwyd anifeiliaid sy'n cael ei fewnforio, ceisiadau i gymeradwyo a chofrestru bwyd anifeiliaid. [Y Safon - 7.4]</p> <p>v) Sicrhau bod yr holl sylwadau a wnaed yn ystod archwiliadau yn cael eu cofnodi mewn modd amserol a bod y cofnodion a gymerodd swyddogion ar y pryd yn ystod archwiliadau'n cael eu storio mewn modd sy'n golygu y gellir cael gafael arnynt eto.[Y Safon - 7.5]</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p> <p><i>Wedi'i gwblhau</i></p> <p>30/7/15</p>	<p>Adolygu camau gweithredu blaenorol gyda'r swyddog perthnasol ac yn cynnal hyfforddiant adolygu yn ôl yr angen.</p> <p>Bydd yn mabwysiadu gweithdrefnau o brosiect Gogledd Cymru ac yn defnyddio swyddogion a awdurdodwyd yn briodol.</p> <p>Data a gesglir ar ffurflenni archwilio electronig i gael eu cysylltu â system CIVICA</p>	<p>Adolygu'r cyfarfod a gynhaliwyd gyda'r swyddog i gadarnhau dealltwriaeth o weithdrefnau a pholisïau. Trafod canlyniadau disgwylidig os yw sefyllfa debyg yn codi.</p> <p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Dim wedi cysylltu systemau papur a Civica hyd yn hyn. Prosiect Gweithio'n Gallach? Wrthi'n ystyried trosglwyddo i wahanol ddarparwr meddalwedd - Tascomi. Rhan o Fframwaith Caffael Cymru Gyfan ar gyfer Gwarchod y Cyhoedd</p>
---	---	---	---

<p>8.10 Dylai'r awdurdod:</p> <p>i) Adolygu a diweddarau'r gweithdrefnau cwyno i gynnwys cyfeiriad at gwynion yn erbyn bwyd a chyflwr sefydliadau bwyd anifeiliaid.[Y Safon - 8.1]</p> <p>ii) Ymchwilio i gwynion a dderbyniwyd, yn unol â'r Côd Ymarfer Cyfraith Bwyd, arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog a'i bolisi a'i weithdrefnau ei hun.[Y Safon - 8.2]</p> <p>iii) Cymryd camau priodol ynghylch cwynion a dderbynnir yn unol â Pholisi Gorfodaeth yr awdurdod.[Y Safon - 8.3]</p>	<p><i>Wedi'i gwblhau</i></p> <p><i>Wedi'i gwblhau</i></p> <p><i>Wedi'i gwblhau</i></p>	<p>Diwygio'r weithdrefn gwyno ynghylch bwyd a bwyd anifeiliaid i gyfeirio at gyflwr y sefydliadau</p> <p>Adolygu camau gweithredu blaenorol gyda'r swyddog perthnasol a chynnal hyfforddiant adolygu yn ôl yr angen.</p> <p>Adolygu camau gweithredu blaenorol gyda'r swyddog perthnasol a chynnal hyfforddiant adolygu yn ôl yr angen.</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Adolygu'r cyfarfod a gynhaliwyd gyda'r swyddog i gadarnhau dealltwriaeth o weithdrefnau a pholisïau. Trafodwyd canlyniadau disgwylidig os yw sefyllfa debyg yn codi.</p> <p>Adolygu'r cyfarfod a gynhaliwyd gyda'r swyddog i gadarnhau dealltwriaeth o weithdrefnau a pholisïau. Trafodwyd canlyniadau disgwylidig os yw sefyllfa debyg yn codi.</p>
<p>11.5 Dylai'r awdurdod:</p> <p>i) Gynnal ei gronfa ddata o sefydliadau bwyd a bwyd anifeiliaid, gan sicrhau bod busnesau bwyd a bwyd anifeiliaid yn cael eu cofrestru'n briodol a'u cynnwys yn y rhaglenni bwyd ac ymyriadau bwyd anifeiliaid.[Y Safon - 11.1]</p>	<p>parhaus</p>	<p>Gwaith yn parhau i gofrestru ac asesu risg yn erbyn y cynllun risg NTSB.</p>	<p>Gwaith parhaus. Ymweld â sefydliadau sydd heb eu sgorio</p>

<p>12.11 Dylai'r awdurdod:</p> <p>i) Ddiwygio'r Rheoliadau Samplu Bwyd a Bwyd Anifeiliaid gynnwys cyfeiriad at ei ddull o hysbysu / ymgynghori â Phrif Awdurdodau ac Awdurdodau Cartref.[Y Safon - 12.4]</p> <p>ii) Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefn ysgrifenedig ar gyfer caffael neu brynu, parhad tystiolaeth ac atal dirywiad neu ddifrod o ran samplau safonau bwyd anffurfiol yn unol â Chod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau perthnasol a gyhoeddwyd yn ganolog.[Y Safon - 12.5]</p> <p>iii) Cymryd camau priodol yn unol â'i Bolisi Gorfodi lle nad yw canlyniadau samplau hylendid bwyd yn cael eu hystyried i fod yn foddhaol.[Y Safon - 12.7]</p>	<p><i>Wedi'i gwblhau</i></p> <p><i>Wedi'i gwblhau</i></p> <p><i>Wedi'i gwblhau</i></p>	<p>Diwygio'r polisi.</p> <p>Sefydlu gweithdrefn ar gyfer samplau anffurfiol sydd yr un fath â'r un ar gyfer samplau ffurfiol. Gweithdrefn i fynd i'r afael â; prynu, parhad tystiolaeth, atal dirywiad a niwed i samplau yn unol â'r COP</p>	<p><i>Wedi'i gwblhau</i></p> <p><i>Wedi'i gwblhau</i></p> <p><i>Diwygio'r Polisi Samplu a chysylltu â'r Awdurdod Cartref gyda chanlyniadau. Rhai AC ond eisiau gweld y canlyniadau os oes unrhyw fethiant.</i></p>
<p>13.8 Dylai'r awdurdod:</p> <p>i) Diwygio'r Cynllun Rheoli Achosion er mwyn sicrhau ei fod yn cynnwys y cysylltiadau perthnasol yn yr awdurdod lleol.[Y Safon - 13.1]</p> <p>ii) Datblygu ymhellach y weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer ymchwilio i glefydau heintus i gynnwys</p>	<p><i>Wedi'i gwblhau</i></p> <p><i>Wedi'i gwblhau</i></p>	<p>.</p>	<p><i>Diwygiwyd y rhan berthnasol o'r cynllun ar yr un pryd â'r diweddariad o'r Cynllun Gweithredu Iechyd mewn Porthladdoedd</i></p> <p><i>Mae'r cynllun bellach yn cyfeirio at y berthynas rhwng</i></p>



	Ymarfer a chanllawiau swyddogol. [Y Safon – 15.2]			
iii)	Diwygio'r gweithdrefnau ar gyfer cadw nwyddau hylendid bwyd, dal gafael arnynt ac ardystio a safonau bwyd yn unol â'r Codau Ymarfer perthnasol a chanllawiau swyddogol. [Y Safon – 15.2]	Wedi'i gwblhau		Mae Gweithdrefn Cadw Bwyd Iechyd yr Amgylchedd nawr yn cyfeirio at y dull gwaredu ar gyfer bwydydd a gedwir
iv)	Diwygio'r gweithdrefnau ar gyfer erlyniadau a rhybuddion syml ynghylch bwyd anifeiliaid yn unol â'r Codau Ymarfer perthnasol a chanllawiau swyddogol, i sicrhau bod rolau swyddogion CPIA yn cael eu nodi'n glir mewn ffeiliau erlyn a rhybuddion syml ynghyd ag ystyried y Polisi Gorfodi a'r profion cyfreithiol perthnasol. Sicrhau bod y weithdrefn yn cael ei gweithredu'n llawn. [Y Safon – 15.2]	Wedi'i gwblhau	Diwygio'r ffurflenni safonol presennol lle bo angen.	Wedi'i gwblhau
v)	Sicrhau bod gwaith gorfodi hylendid bwyd yn cael ei wneud yn unol â'r Codau Ymarfer perthnasol a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 15.3]	Wedi'i gwblhau		Mae'r Weithdrefn Rhybudd HI bellach yn gofyn am gais ysgrifenedig i ymestyn y cyfnod rhybudd a llythyr i gadarnhau cydymffurfiaeth
vi)	Sicrhau bod yr holl benderfyniadau	Wedi'i	Diwygio'r ffurflenni safonol lle bo	

<p>ar gamau gorfodi yn cael eu gwneud ar ôl ystyried Polisi Gorfodi'r awdurdod a bod y rhesymau am wyro oddi wrth y meini prawf a amlinellir yn y polisi gorfodi yn cael eu dogfennu. [Y Safon – 15.4]</p>	gwblhau	angen.	Wedi'i gwblhau
<p>16.7 Dylai'r awdurdod:</p> <p>i) Sicrhau bod manylion cofrestru cyfoes yn cael eu cadw ar gyfer busnesau bwyd a bod llythyrau a ddarperir i fusnesau yn dilyn ymyriadau / arolygiadau yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan y Côd Ymarfer ar Gyfraith Bwyd. [Y Safon – 16.1]</p>	Wedi'i gwblhau	Roedd gan ddau o fusnesau fanylion cofrestru gwahanol i'r rhai ar y llythyr. Bydd raid anfon e-bost at y staff. Cadw copi gyda'r weithdrefn Gofrestru.	Wedi'i gwblhau Gwneud y diweddariadau a swyddogion i wirio manylion Cofrestru yn ystod / ar ôl yr arolygiad
The Auditor General for Wales' consideration of the Council's arrangements to secure economy, efficiency and effectiveness has been based on the audit work undertaken on the accounts as well as placing reliance on the work completed as part of the Improvement Assessment under the Local Government (Wales) Measure 2009. The Annual Improvement Report will highlight areas where the effectiveness of these arrangements has yet to be demonstrated or where improvements could be made.

**The Auditor General for Wales issued a certificate confirming that the audit of the accounts had been completed on 30 September 2015.**

**Work to date on certification of grant claims and returns has not identified significant issues that would impact on the 2015-16 accounts or key financial systems**

A more detailed report on grant certification work will follow in 2016 once this year's programme of certification work is complete.

The financial audit fee for 2014-15 is currently expected to be in line with the agreed fee set out in the Annual Audit Outline.

Yours sincerely

**Lynn Pamment**  
**Partner, PricewaterhouseCoopers LLP**

**For and on behalf of the Auditor General for Wales**

cc. Dr. Gwynne Jones, Chief Executive

## Tystysgrif Cydymffurfio

---

# Archwiliad o asesiad o berfformiad 2014-15 Cyngor Sir Ynys Môn

## Tystysgrif

Rwyf yn ardystio fy mod i wedi archwilio asesiad Cyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor) o'i berfformiad yn 2014-15, yn dilyn y cyhoeddiad ar 26 Hydref 2015, yn unol ag adran 17 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a'm Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i'm harchwiliad, rwyf o'r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau dan adrannau 15(2), (3), (8) a (9) y Mesur a'i fod wedi ymddwyn yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

## Priod gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Archwilydd Cyffredinol

Dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi asesiad yn flynyddol sy'n disgrifio ei berfformiad o ran y canlynol:

- cyflawni ei ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni ei swyddogaethau;
- cyflawni'r amcanion gwella y mae wedi'u pennu iddo'i hun;
- trwy gyfeirio at ddangosyddion perfformiad a nodwyd gan Weinidogion Cymru a dangosyddion perfformiad a bennwyd gan y Cyngor ei hun; a
- chyflawni unrhyw safonau perfformiad a nodwyd gan Weinidogion Cymru a safonau perfformiad a bennwyd gan y Cyngor ei hun.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi ei asesiad cyn 31 Hydref yn ystod y flwyddyn ariannol yn dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r wybodaeth yn ymwneud â hi, neu erbyn unrhyw ddyddiad arall a allai gael ei bennu trwy orchymyn gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ystyried canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru, wrth gyhoeddi ei asesiad.

Fel archwilydd y Cyngor, mae'n ofynnol dan adrannau 17 ac 19 y Mesur i mi gynnal archwiliad er mwyn penderfynu a yw'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswydd i gyhoeddi asesiad o berfformiad, ardystio fy mod i wedi gwneud hynny ac adrodd ynghylch a wyf o'r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau'n unol â'r gofynion statudol a eglurir yn adran 15 ac mewn canllawiau statudol.

## Cwmpas yr archwiliad

At ddibenion fy ngwaith archwilio byddaf yn derbyn, os yw awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol, y bydd hefyd wedi cydymffurfio â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

Ar gyfer yr archwiliad hwn, nid yw'n ofynnol i mi ffurfio barn ynghylch pa mor gyflawn neu gywir yw'r wybodaeth. Mae'n bosibl y bydd gwaith asesu arall y byddaf yn ymgymryd ag ef dan adran 18 y Mesur yn ystyried y materion hynny. Felly, roedd fy archwiliad o asesiad o berfformiad y Cyngor yn cynnwys adolygu cyhoeddiad y Cyngor er mwyn gweld a oedd yn cynnwys yr elfennau a bennir mewn deddfwriaeth. Euthum ati hefyd i asesu a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r asesiad yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth, ac a oedd y Cyngor wedi ystyried canllawiau statudol wrth baratoi a chyhoeddi ei asesiad.

Nid yw'r gwaith yr wyf i wedi'i gyflawni er mwyn adrodd a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 ac 19 y Mesur yn waith y gellir dibynnu'n gyfan gwbl arno i nodi pob gwendid neu bob cyfle i wella.

## Argymhellion dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009

Dim argymhellion

**HUW VAUGHAN THOMAS**

**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

CC: Leighton Andrews, y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus

Jeremy Evans, Rheolwr

Andy Bruce, Swyddog Arweiniol Archwilio Perfformiad

## Cyngor Sir Ynys Môn

### Diweddariad ar raglen waith perfformiad ar gyfer Pwyllgor Archwilio 8 Rhagfyr 2015

## Astudiaethau Llywodraeth Leol – Diweddariad Awst 2015

Mae'r rhan hon o'r briffio yn darparu diweddariad ar gyflenwi rhaglen astudiaethau Llywodraeth Leol Cymru Gyfan a phrosiectau eraill a reolir yn ganolog. Mae pob astudiaeth yn ymwneud â llywodraeth leol yn unig oni bai bod y sylwebaeth isod yn cyfeirio'n benodol at waith ar Barciau Cenedlaethol a/neu Awdurdodau Tân ac Achub.

### 1. Astudiaethau Llywodraeth Leol 2014-15

#### Annibyniaeth pobl hŷn

Cyhoeddwyd yr adroddiad ar 15 Hydref 2015. Mae'r adroddiad ar gael yma - <http://www.archwilio.cymru/cy/cyhoeddi/Annibyniaeth-pobl-h%C5%B7n>

#### Cyflawni â llai – Hamdden

Disgwylir i'r adroddiad yma gael ei gyhoeddi ar ddechrau mis Rhagfyr 2015.

### 2. Astudiaethau Llywodraeth Leol 2015-16

#### Diogelwch Cymunedol

Mae'r gwaith maes wedi'i gwblhau. Safleoedd gwaith maes gogledd Cymru yw Conwy/Sir Ddinbych, Wrecsam, Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a Bwrdd Cymunedau Diogelach Gogledd Cymru. Bwriedir cyflwyno'r adroddiad cenedlaethol yn ystod gaeaf 2016.

#### Agwedd strategol cynghorau at gynhyrchu incwm a chodi tâl

Cyflawnir yr astudiaeth hon dan ein rhaglen flynyddol "cyflawni â llai", a bydd yr astudiaeth yn cynnwys archwiliad o agwedd strategol cynghorau at godi tâl, y broses gymeradwyo ar gyfer pennu ac adolygu taliadau mewn cyngor; effaith codi tâl ar wasanaethau a defnyddwyr gwasanaeth; a'r sail ddeddfwriaethol ar gyfer codi tâl.

Mae briff y prosiect wedi ei ddsbarthu, a chyflwynir yr astudiaeth dan gontract â Grant Thornton. Nid yw Ynys Môn yn safle gwaith maes.

#### Ariannu gwasanaethau trydydd sector gan gynghorau

Hefyd, dan y themâu cyflawni â llai, bydd yr astudiaeth hon yn edrych ar lefel y buddsoddiad yng ngwasanaethau'r sector gwirfoddol, er mwyn meincodi'r canfyddiadau yn unol ag adolygiadau Uned Data Llywodraeth Leol a gynhaliwyd ar ran Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru sy'n dyddio o 2001 i 2002. Bydd yr adolygiad yn cynnwys y camau a ddefnyddir i asesu effeithiolrwydd ariannu mewn ardal olrhain, a chytunir ar hyn gyda Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru; adolygu prosesau gwneud penderfyniadau i

benderfynu pa un a ddilynir egwyddorion llywodraethu da ar gyfer cyllido gwasanaethau'r trydydd sector. Dosbarthwyd briff y prosiect ac nid yw Ynys Môn yn safle gwaith maes.

### **3. Astudiaethau Llywodraeth Leol 2016-17**

Rydym wrthi'n datblygu a chwblhau rhestr o bynciau astudiaeth posibl i ymgynghori ar ein rhaglen waith yn y dyfodol. Trafodir y rhaglen ddrafft gyda'r timau ymgysylltu yn y cylch nesaf o gyfarfodydd tîm. Yn dilyn hyn, ymgynghorir â'r awdurdodau lleol.

### **4. Gwaith asesu archwilio gwelliant ar gyfer 2015-16**

Mae'r rhan hon o'r briffio yn darparu diweddariad ar y cynnydd ynghylch cyflenwi'r gwaith archwilio ac asesu yn Ynys Môn (bydd rhai astudiaethau hefyd yn cynnwys cynghorau eraill gogledd Cymru a Chymru).

#### **Archwiliad o asesiad o berfformiad**

Cafodd y dystysgrif ei gyhoeddi ym mis Tachwedd ac mae Adroddiad Perfformiad y Cyngor yn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru a'r Mesur LIL.

#### **Adolygiad cydnerthedd ariannol**

Mae'r adolygiad wedi'i gwblhau a darparwyd adborth anffurfiol i'r swyddog Adran 151. Mae adroddiad lleol wedi'i ddrafftio ac yn dilyn adborth gan y Cyngor, caiff yr adroddiad ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr/Ionawr.

#### **Adolygiad o lywodraethu**

Bydd y gwaith hwn yn canolbwyntio ar feysydd y nodir bod angen eu gwella yn yr adroddiad Asesu Corfforaethol. Amserlen – mis Rhagfyr 2015 i fis Mawrth 2016.

#### **Adolygiad rheoli perfformiad**

Astudiaeth ar draws pob un o chwe chyngor gogledd Cymru ar feincnodi costau gwasanaethau cymdeithasol o'i gymharu â pherfformiad. Mae'r astudiaeth yn cynnwys cyfranogiad AGGCC a thrafodaethau gyda staff cyngor. Amserlen - mis Medi i fis Rhagfyr 2015. Mae cyfarfod rhwng SAC, swyddogion arweiniol y Cyngor ac AGGCC wedi'i drefnu ar gyfer 21 Rhagfyr i drafod canlyniadau posibl o ddadansoddiad o'r dangosyddion.

#### **Adolygiad(au) a benderfynwyd yn lleol**

Gwaith dilynol ar agweddau y nodwyd bod angen eu gwella yn yr adroddiad Asesu Corfforaethol. Amserlen – mis Rhagfyr 2015 i fis Mawrth 2016. Bydd hyn yn deillio o'r Asesiad Corfforaethol yn dilyn trafodaeth gyda'r Cyngor.



## **Adroddiad Gwella Blynyddol**

Crynodeb ac asesiad blynyddol gan yr Archwilydd Cyffredinol a rheoleiddwyr eraill.  
Amserlen – mis Rhagfyr 2015 i fis Mawrth 2016.

### **5. Gwaith asesu archwilio gwelliant ar gyfer 2014-15**

#### **Asesiad corfforaethol**

Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol ar 2 Rhagfyr ac fe fydd yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ar 9 Rhagfyr 2015.

### **6. Gwaith ddilynol ar argymhellion cenedlaethol**

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gweithredu ar argymhellion a wnaed mewn adroddiadau astudiaethau cenedlaethol yn ystod 2014-15 trwy gyflawni arolwg i bob cyngor yn yr hydref o 2015. Fe fydd hwn yn galluogi gwerthuso cynnydd ar argymhellion ym mhob cyngor, llywio gwaith cynllunio lleol ar gyfer 2016-17, a rhoi darlun cenedlaethol o weithrediad ar argymhellion SAC.

### **7. Astudiaethau Cenedlaethol Gwerth am Arian**

Mae tabl ar wahân wedi ei gynhyrchu sy'n nodi'r astudiaethau cenedlaethol a luniwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru neu y mae'n eu cynllunio trwy'r cyfnod 2015-16.

This page is intentionally left blank

<b>CYNGOR SIR YNYS MÔN</b>	
<b>ADRODDIAD I:</b>	<b>PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHIANT</b>
<b>DYDDIAD:</b>	<b>8 RHAGFYR 2015</b>
<b>PWNC:</b>	<b>ADRODDIAD CYNNYDD AR ARCHWILIO MEWNOL 1 EBRILL – 31 HYDREF 2015</b>
<b>SWYDDOG ARWEINIOL:</b>	<b>PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL – MIKE HALSTEAD</b>
<b>SWYDDOG CYSWLLT:</b>	<b>RHEOLWR ARCHWILIO – SIONED PARRY</b>
<p><b>Natur a rheswm am adrodd</b> – I gydymffurfio â gofynion Safonau Archwilio Mewnol Sector Cyhoeddus y DU a Safonau DU CIPFA a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2013, lle mae gofyn i'r Pennaeth Archwilio adrodd yn gyfnodol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant ar berfformiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol mewn perthynas â Chynllun Archwilio 2015/16 ac ystyried mesurau perfformiad Archwilio Mewnol yn chwarterol.</p>	

## 1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Cynhyrchir yr adroddiad hwn i gydymffurfio â Chylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant, sy'n gofyn i'r Pwyllgor adolygu cynnydd wrth gyflawni'r Cynllun Archwilio Mewnol a'r Strategaeth Archwilio Mewnol trwy dderbyn ac ystyried adroddiadau cynnydd chwarterol.
- 1.2 Mae'r adroddiad yn dadansoddi perfformiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol am y cyfnod 1 Ebrill 2015 hyd at 31 Hydref 2015 a chaiff ei gefnogi gan **Atodiadau A i E** sy'n rhoi manylion am y cynnydd yn erbyn targedau perfformiad ar gyfer 2015/16 a'r gwaith a wnaed gan y Gwasanaeth yn ystod y cyfnod hwn.
- 1.3 Cyflwynwyd Cynllun Strategol diwygiedig am y cyfnod 3 blynedd 2015/16 hyd at 2017/18 i gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant ar 27 Gorffennaf 2015 ac fe'i cymeradwywyd ganddo. Mae Cynllun Gweithredol 2015/16 sy'n deillio o hynny yn darparu cynllun mwy cytbwys; sy'n galluogi medru archwilio'n ehangach ac archwilio nifer o feysydd nad ydynt wedi bod yn destun adolygiad archwilio yn y blynyddoedd diweddar.

## 2. ARGYMHELLIAD

- 2.1 Gofynnir i'r Aelodau ystyried a darparu sylwadau ar y sicrwydd a ddarperir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant yn yr adroddiad hwn yng nghyswllt y prosesau rheolaethau mewnol, rheoli risg a llywodraethu corfforaethol sydd ar waith i gyflawni amcanion yr awdurdod.

## 3. GWYBODAETH GEFNDIROL

### 3.1 Perfformiad Archwilio Mewnol 1/4/15 hyd at 31/10/15

- 3.1.1 Cwblhawyd dadansoddiad o waith a pherfformiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol am y cyfnod 1/4/15 hyd at 31/10/15. Roedd 10 o brosiectau archwilio oedd yn amrywio o ran

cymhlethdod ar gyfer 2014/15 nad oedd wedi'u cyflawni na'u cyflwyno erbyn 31/03/15, sy'n golygu bod gwaith yn mynd rhagddo arnynt fel a ganlyn:

- System Derbynebaw Arian
- Treth Gyngor
- Budd-daliadau Tai
- Rhenti Tai
- Y Brif System Gyfrifo
- Trethi Annomestig
- Y Gyflogres
- Mân-ddyledion
- Rheoli'r Trysorlys
- Gwirio Stoc DLO

3.1.2 Treuliwyd 5.5 diwrnod ar waith oedd yn mynd rhagddo yn ystod 2015/16 hyd at ddiwedd mis Awst, ac fe ddaw'r dyddiau hyn o'r ddarpariaeth oedd yn weddill ar gyfer gwaith o'r fath yn y flwyddyn flaenorol.

3.1.3 Mae atodlen o dargedau perfformiad am y cyfnod sy'n dod i ben 31/10/15 ynghlwm yn **Atodiad A**. Dylid nodi bod y dangosydd perfformiad yng nghyswllt archwiliadau a wnaed yn ystod y cyfnod hwn wedi cael ei ostwng oherwydd yr angen i'r Gwasanaeth ganolbwyntio ar gwblhau'r holl waith oedd yn mynd rhagddo yn 2014/15. Mae'r cynnydd hefyd wedi dioddef oherwydd lefel salwch uwch na'r disgwyl yn y Tîm Archwilio a'r ffaith fod swydd wag yn y tîm ar hyn o bryd.

### 3.2 Gwaith Ychwanegol heb ei Gynllunio

3.2.1 Perfformiwyd 1 archwiliad ychwanegol oedd heb ei gynllunio yn ystod y cyfnod 1/4/15 hyd at 31/10/15. Treuliwyd 2.2 diwrnod o waith arno ac mae dogfen yn egluro hyn ynghlwm yn **Atodiad B**. Rydym hefyd wedi gwneud gwaith heb ei gynllunio ar ardystio grantiau – archwilio allanol oedd yn gwneud hyn yn flaenorol, ac roedd yn cyfateb i 34 diwrnod o waith.

### 3.3 Datganiad o Sicrwydd

3.3.1 Mae gofyn i'r Pennaeth Archwilio ddarparu barn i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant ar ba mor ddigonol ac effeithiol yw systemau llywodraethiant a rheoli risg yr Awdurdod ar y cyfan ynghyd â'i amgylchedd rheolaethau mewnol. Mae hyn yn cydymffurfio â gofynion y Safonau Archwilio Mewnol Sector Cyhoeddus a Nodyn Cymhwysio Llywodraeth Leol CIPFA. Mae'r farn gyffredinol yn un o'r mesurau sicrwydd a ddefnyddir gan yr Awdurdod wrth baratoi'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol sy'n ofynnol dan y Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio.

3.3.2 Mae'r farn archwilio ar bob un o'r aseiniadau a wnaed yn ystod y flwyddyn hyd yma wedi cael eu categoreiddio fel a ganlyn:

- Sicrwydd Sylweddol
- Sicrwydd Rhesymol
- Sicrwydd Cyfyngedig
- Sicrwydd Isel iawn.

3.3.3. I gefnogi'r farn archwilio, mae'r argymhellion a wnaed yn ystod y flwyddyn wedi cael eu categoreiddio fel rhai blaenoriaeth Uchel, Canolig ac Isel, fel y cawsant eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant ar 27 Gorffennaf 2015. Mae diffiniadau o gyfraddau risg yr argymhellion a'r farn archwilio ynghlwm yn **Atodiad C**. Rhoddir ystyriaeth i gysoni cyfraddau risg yr argymhellion gan Archwilio Mewnol gyda Matrics Rheoli Risg yr Awdurdod

gan felly gyfnerthu'r broses rheoli risg ymhellach yn yr Awdurdod. Byddwn yn ceisio cymeradwyaeth y Pwyllgor yn hwyrach ymlaen.

- 3.3.4 Mae crynodeb o'r holl asesiadau archwilio a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn hyd yma gan gynnwys gwaith sy'n mynd rhagddo o 2014/15 ynghlwm yn **Atodiad D**. Mae'r atodlen yn crynhoi'r farn archwilio a'r argymhellion yng nghyswllt pob un maes a adolygwyd a bydd yn ffurfio'r sail ar gyfer y farn yn y Datganiad Sicrwydd Blynyddol ynglŷn â pha mor ddigonol ac effeithiol yw fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaethau mewnol yr Awdurdod ar y cyfan ar gyfer 2015/16. Ers 1 Ebrill 2015 mae 10 adroddiad terfynol wedi cael eu cyflwyno o Gynllun Gweithredol Archwilio Mewnol 2014/15 a phump o'r Cynllun Gweithredol 2015/16.
- 3.3.5 Arweiniodd yr Archwiliadau o'r Fframwaith Rheoli Risg a 5 Risg Uchaf ac Adolygiad Blynyddol o Archwiliadau Cydymffurfiaeth – Llywodraethu Gwybodaeth a gwblhawyd yn ystod Medi a Hydref 2015 ar lefelau '**Rhesymol**' o sicrwydd. Mae manylion yr archwiliadau i'w cael yn **Atodiad D**.


### 3.4 Dilyn i fyny ar Archwiliadau a Thracio Argymhellion

- 3.4.1 Mae Safonau Archwilio Mewnol y DU yn gofyn i'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol ddilyn y cynnydd a wneir gyda chamau gweithredu a gymerir gan reolwyr sy'n codi o'r aseiniadau. Y rheolwyr sy'n gyfrifol am weithredu argymhellion archwilio y cytunwyd arnynt ac nid Archwilio Mewnol. Cyfrifoldeb Archwilio Mewnol yw adrodd ar y statws.
- 3.4.2 Caiff y data ei gasglu ar hyn o bryd o hunanasesiad gan y gwasanaethau perthnasol ac ar hyn o bryd nid yw'n cael ei gadarnhau gan Archwilio Mewnol hyd nes y caiff adolygiad archwilio dilynol ei gynnal yn yr un maes. Yn y cyfamser cyfrifoldeb y rheolwyr yw egluro pam nad yw'r argymhellion wedi cael eu gweithredu. Mae **Tabl 1** isod yn crynhoi statws gweithredu'r argymhellion ar 9 Tachwedd 2015:

<b>Tabl 1 – Statws argymhellion y cytunwyd arnynt ar 09-11-2015</b>				
<b>Statws</b>	<b>Uchel</b>	<b>Canolig</b>	<b>Cyfanswm</b>	<b>%</b>
Cwblhawyd	24	93	117	58%
Yn weddill	8	77	85	42%
Cyfanswm	32	170	202	100%

- 3.4.3 Mae'r argymhellion ar hyn o bryd wedi eu categorio fel rhai uchel, canolig neu isel yn unol â'r risg ganfyddedig fel yr amlinellir yn **Atodiad C**. Nid yw Archwilio Mewnol yn mynd ar ôl yr argymhellion isel yn ffurfiol ac felly nid ydynt wedi eu cynnwys yn y dadansoddiad hwn. Roedd canran y gyfradd weithredu ar 9 Tachwedd 2015 yn 58% ar gyfer cofnodi a gweithredu argymhellion 'uchel' a 'chanolig'.
- 3.4.4 Mae **Tabl 2** isod yn cynnwys graff sy'n dangos gweithrediad yr argymhellion gan bob Gwasanaeth:

Tabl 2



3.4.5 Roedd adroddiad gan y cyn-Reolwr Archwilio Mewnol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant ar 27 Gorffennaf 2015 wedi adnabod bod angen gwneud gwaith i wella monitro ac adrodd ar gynnydd wrth weithredu argymhellion a gytunwyd. Mae Proses Dilyn i Fyny a Monitro yn cael sylw mewn eitem arall ar eich rhaglen dan yr Adolygiad o'r Protocol Archwilio mewnol i gynnwys Archwiliadau Dilyn i Fyny.

### 3.5 Cyfeiriadau

Yn ogystal â'r lefelau sicrwydd y cytunodd y gwasanaethau arnynt ac a ddarparwyd i gynorthwyo rheolwyr gwrrdd ag amcanion yr Awdurdod, mae Archwilio Mewnol hefyd wedi ymgymryd ag ystod o gyfeiriadau/gwasanaethau ymgynghori sy'n cynnwys:

- Cyngor a chanllawiau i reolwyr ar amryw o faterion, gan gynnwys gweithredu'r system, cydymffurfio â pholisïau, rheoliadau a gweithdrefnau a gofynion rheolaethau mewnol.
- Hyfforddiant
- Ymchwiliadau arbennig gan gynnwys gwaith yn gysylltiedig â thwyll.

3.5.2 Cynlluniwyd y bydd 205 o ddyddiau yn cael eu neilltuo ar gyfer cyfeiriadau/ymgynghori yn ystod y flwyddyn ac mae 113.81 o ddyddiau wedi eu treulio ar y gwaith hwn hyd at ddiwedd mis Hydref 2015.

3.5.3 Mae crynodeb o ymchwiliadau arbennig a wnaed gan Archwilio Mewnol yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2015 hyd at 31 Hydref 2015 wedi'i gynnwys yn **Atodiad E** ac mae'n gyfanswm o 48 diwrnod.

### 3.6 Absenoldeb Salwch

3.6.1 Mae'r Gwasanaeth yn rheoli absenoldeb salwch yn unol â Pholisi Absenoldeb Salwch yr Awdurdod. Cafwyd 73 diwrnod o absenoldeb salwch hyd at 31 Hydref 2015 yn erbyn targed

blynyddol o 45 diwrnod. Roedd hyn yn bennaf oherwydd absenoldeb salwch tymor hir 2 swyddog yn y chwarter cyntaf, oedd yn rhoi 59.81 o ddyddiau salwch.

#### 4. **BLAENRAGLEN WAITH ARCHWILIO MEWNOL**

<b>Teitl yr Adolygiad a Drefnwyd</b>	<b>Maes Gwasanaeth</b>	<b>Statws Cyfredol</b>
Partneriaethau - Llywodraethiant a Pherfformiad	Corfforaethol	Drafft wedi'i adolygu
Ffioedd Rheoliadau Adeiladu	Datblygu Cynaliadwy	Gwaith yn mynd rhagddo
Archwilio Contractau – Gwariant Cyfalaf	Corfforaethol	Gwaith yn mynd rhagddo
Rheoli Fflyd	Datblygu Cynaliadwy	Drafft wedi'i adolygu
Adnoddau Dynol – Polisiâu ac Arferion ar gyfer Rheoli'r Gweithlu	Trawsnewid	Gwaith yn mynd rhagddo
Ysgol Talwrn	Dysgu Gydol Oes	Gwaith yn mynd rhagddo
Ysgol Brynsiencyn	Dysgu Gydol Oes	Gwaith yn mynd rhagddo
Ysgol Cemaes	Dysgu Gydol Oes	Gwaith yn mynd rhagddo
Ysgol Gynradd Bodedern	Dysgu Gydol Oes	Gwaith yn mynd rhagddo
Tai Fforddiadwy, Troi Tai'n Gartrefi a Chynllun Bentyca i Hunan-adeiladu	Cymuned	Drafft wedi'i adolygu
Strategaeth Dai	Cymuned	Gwaith yn mynd rhagddo
Trethi Busnes a'r Dreth Gyngor	Adnoddau	Gwaith yn mynd rhagddo

#### 5. **CASGLIAD**

- 5.1 Mae dadansoddiad o berfformiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn y cyfnod 1 Ebrill 2015 hyd at 31 Hydref 2015 yn dangos bod y lefelau perfformiad fwy neu lai ar darged. Fodd bynnag, bydd gallu'r gwasanaeth i gyflawni Cynllun Gweithredol 2015/16 yn dibynnu ar lefel y galw am adnoddau archwilio yng nghyswllt cyfeiriadau, gwaith heb ei gynllunio cyn diwedd y flwyddyn a lefelau absenoldeb salwch.





Disgrifiad	CSYM Gwirionedd ol 2013/14	CSYM Gwirioneddol ar 31/3/15	CSYM Targed 2015/16	CSYM Gwirioneddol ar 31/8/15	Cyfartaledd Cymru 2013/14
1. % yr Archwiliadau Cynlluniedig a Gwblhawyd	81%	92%	80%	17.31%	80%
2. Nifer yr Archwiliadau	51	46	60	10	126
3. % Ymatebion 'Boddhaol' gan Gleientiaid	100%	100%	100%	Dim	97%
4. % yr Argymhellion a dderbyniwyd	100%	100%	100%	92%	99%
5. % Gweithredu Argymhellion Lefel Uchel a Chanolig mewn archwiliadau Dilyn-i-fyny	46%	49%	85%	58%	D/B
6. % yr Archwiliadau a gwblhawyd o fewn yr amser a gynlluniwyd	D/B	D/B	90%	84.21%	71%
7. % yr amser y codir amdano'n uniongyrchol yn erbyn y cyfanswm sydd ar gael	D/B	D/B	70%	73.30%	68%
8. Nifer y dyddiadau ar gyfartaledd o'r cyfarfod cau i gyhoeddi'r adroddiad drafft	D/B	D/B	6 diwrnod	6 diwrnod	9.5 diwrnod
9. Nifer y dyddiau ar gyfartaledd rhwng yr ymateb i'r adroddiad drafft a chyhoeddi'r adroddiad terfynol	D/B	D/B	2 ddiwrnod	2.4 diwrnod	2.4 diwrnod
10. Y gost wirioneddol fesul diwrnod archwilio y codir amdano'n uniongyrchol	£245	£238	£250	£250	£225
11. Nifer staff Archwilio	5.5	5.6	5.68	4.68	9.3
12. % y staff a adawodd	0	0	0	0	22%

**ARCHWILIO MEWNOL  
CYNGOR SIR YNYS MÔN**

**DADANSODDIAD O WAITH YCHWANEGOL NAD OEDD WEDI EI  
GYNLLUNIO A WNAED YN YSTOD 1 EBRILL 2015 I 31 HYDREF 2015**

	<b>MAES</b>	<b>NATUR Y GWAITH</b>	<b>DYDDIAU ARCHWILIO</b>
1	Bryn Trewan	Gofynnodd y Pwyllgor Archwilio i'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol edrych ar y gwaith papur gwreiddiol mewn perthynas â chodi ar 60 eiddo yn Bryn Trewan, Caergeiliog am gostau carthffosiaeth.	2.20
2	Ardystio Grantiau – Y Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd	Ardystiad Terfynol	4.30
3	Grant Amddifadedd Disgyblion LIC	Cafodd Archwilio Mewnol wybod ym mis Medi 2015 bod rhaid cyflwyno'r Dystysgrif Dyraniad Grant Amddifadedd Disgyblion i Awdurdodau ac Adroddiad Archwilio Mewnol i LIC erbyn 31 Hydref 2015.	4.80
4	Grant Cymraeg Mewn Addysg LIC 2014/15	Cafodd Archwilio Mewnol wybod ym mis Awst 2015 bod rhaid cyflwyno Tystysgrif Dyraniad WEG i Awdurdodau ac Adroddiad Archwilio Mewnol i LIC erbyn 31 Hydref 2015.	2.70
5	Grant Llwybrau Dysgu 14-19 LIC 2014/15	Cafodd Archwilio Mewnol wybod ym mis Medi 2015 Awst bod rhaid cyflwyno Tystysgrif Dyraniad Grant Llwybrau Dysgu 14-19 i Awdurdodau ac Adroddiad Archwilio Mewnol i LIC erbyn 31 Hydref 2015.	13.18
6	Grant Effeithiolrwydd Ysgolion LIC 2014/15	Cafodd Archwilio Mewnol wybod ym mis Awst 2015 bod rhaid cyflwyno Tystysgrif Dyraniad SEG i Awdurdodau ac Adroddiad Archwilio Mewnol i LIC erbyn 31 Hydref 2015.	9.05
	<b>CYFANSWM NIFER Y DYDDIAU</b>		<b>36.20</b>

.....

## ARGYMHELLION ARCHWILIO A'R FARN ARCHWILIO

## 1. DIFFINIADAU O'R LEFELAU SICRWYDD

Mae diffiniadau newydd o lefelau sicrwydd ar gyfer 2015/16 yn gliriach ac yn fwy cywir yn nodi'r flaenoriaeth y dylid ei rhoddi i'r argymhellion a wnaed. Gweler isod:

LEFEL SICRWYDD	DIFFINIAD
SICRWYDD SYLWEDDOL	Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn dda. Dim angen i'r rheolwyr gymryd unrhyw gamau gweithredu neu angen iddynt gymryd camau lefel isel yn unig. <b>Dim argymhellion lefel uchel a hyd at 2 o argymhellion blaenoriaeth ganolig yn cael eu gwneud.</b>
SICRWYDD RHESYMOL	Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethiant, rheoli risg ac/neu reolaeth fewn yn rhesymol. Mae angen i'r rheolwyr gymryd camau lefel ganolig i isel. <b>Gwneir unrhyw argymhellion blaenoriaeth lefel uchel.</b>
SICRWYDD CYFYNGEDIG	Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethiant, rheoli risg ac/neu reolaeth fewn yn gyfyngedig. Mae angen i'r rheolwyr gymryd camau lefel ganolig i isel. <b>Gwneir nifer o argymhellion blaenoriaeth uchel/neu ganolig</b>
SICRWYDD LLEIAF	Mae diffygion sylweddol yn y trefniadau ar gyfer llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol. Mae angen i'r rheolwyr gymryd camau lefel uchel mewn nifer o feysydd. <b>Gwneir nifer sylweddol o argymhellion blaenoriaeth uchel.</b>

## 2. Diffiniadau o Flaenoriaethau ar gyfer Argymhellion

Mae diffiniadau o'r blaenoriaethau a ddefnyddiwyd ar gyfer yr argymhellion wedi cael eu llunio er mwyn gwella cysondeb yn y tîm archwilio a helpu'r lefel o ddealltwriaeth gan y sawl sy'n derbyn yr adroddiad. Gweler isod:

BLAENORIAETH ARGYMHELLIAD	YR	DIFFINIAD
UCHEL		Mae angen cymryd camau sylweddol oherwydd absenoldeb neu ddiffyg cydymffurfiaeth gyda phrosesau rheoli sylfaenol sy'n arwain at y potensial na fydd problemau llywodraethiant sylweddol, cam-ymarfer, risg neu gamgymeriad yn cael eu darganfod
CANOLIG		Mae angen cymryd camau pwysig i ddod â'r system reolaeth fewnol i fyny i safon dderbyniol neu i wneud i ffwrdd â lefel annerbyniol o ddiffyg cydymffurfiaeth gyda phroses rheoli gyfredol.
ISEL		Camau a allai wella'r rheolaeth fewnol yn gyffredinol ond nad yw'n hanfodol i'r system reolaeth gyffredinol.



## Crynodeb o Argymhellion a Lefelau Sicrwydd 1-4-15 hyd at 31-8-15

## ATODIAD D

	Teitl yr Adroddiad	Dyddiad	Gwasanaeth	Cyfanswm Argymhellion yr Archwiliad	Negeseuon Allweddol	Lefel Sicrwydd
Tudalen 139	System Derbynebaw Arian WIP 2014/15	Ebrill 15	Adnoddau	4	<p>Cynhaliwyd archwiliad o'r System Derbynebaw Arian fel rhan o'r cynllun archwilio mewnol cyfnodol a gymeradwywyd ar gyfer 2014/15.</p> <p>Mae'r drefn derbynebaw ar gyfer symiau arian yn digwydd ar hyn o bryd trwy eu rhoi i mewn â llaw i'r system Derbynebaw Arian o ddatganiadau banc.</p> <p>Roedd argymhelliad oedd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad Derbynebaw Arian 2013/14 yn ymwneud â gweithredu system 'auto feeder' datganiadau banc yn 2015/16 i gynorthwyo a sicrhau y gellir cysoni'r symiau yn y banc yn brydlon o ddiwedd y cyfnod. Nid yw'r argymhelliad hwn a'r tri argymhelliad arall yn Adroddiad Terfynol y Derbynnydd Arian 2013/14 wedi cael eu gweithredu.</p> <p><b>Barn:</b> Gan roi ystyriaeth i'r materion a nodwyd, gellir rhoi sicrwydd sylweddol i'r Cyngor bod y rheolaethau y mae'r sefydliad yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi'u dylunio'n addas a'u gweithredu'n gyson.</p>	Sylweddol
	Dyledwyr WIP 2014/15	Ebrill 15	Adnoddau	22	<p>Cynhaliwyd archwiliad o Fân Dyledwyr fel rhan o'r cynllun archwilio mewnol cyfnodol a gymeradwywyd ar gyfer 2014/15.</p> <p>Yn 2013/14 roedd nifer yr anfonebau a godwyd yn 20,287 ac roeddent yn werth £16.3m. Roedd gwerth yr anfonebau a ganslwyd ynghyd â nodiadau credyd a godwyd yn ystod y cyfnod yn £462k. Yn ôl Adroddiad Crynodeb ar Hen Dyledion</p>	Cyfyngedig

	Teitl yr Adroddiad	Dyddiad	Gwasanaeth	Cyfanswm Argymhellion yr Archwiliad	Negeseuon Allweddol	Lefel Sicrwydd
					<p>dyddiedig 14 Ionawr 2015 roedd cyfanswm y mân ddyledion oedd dal yn weddill yn £3,192,488.54.</p> <p>Cyflwynodd y Cyngor system ariannol newydd CIVICA ym mis Ebrill 2013 sy'n cynnwys y modiwl Mân Ddyledwyr a ddefnyddir fel prif gofnod y Cyngor o ddyledwyr.</p> <p>Roedd yr adolygiad Mân Ddyledwyr ar gyfer 2013/14 yn cynnwys chwe argymhelliad yn y categori Canolig ac un ar ddeg argymhelliad yn y categori Isel. Roedd archwiliad 2014/15 yn dangos nad yw'r chwe argymhelliad categori Canolig wedi cael eu gweithredu. Mae'r rhain yn ymwneud ag adennill dyledion sy'n weddill mewn modd prydlon ac effeithiol, adolygu hen anfonebau yn rheolaidd, adolygu'n rheolaidd ddyledion sydd wedi'u dileu, dyledion sydd wedi'u gohirio, cysoni'r lejer ariannol gyda'r system Mân Ddyledwyr a chyfrifoldebau sy'n ymwneud ag enwebu swyddogion i roi anfonebau a manylion dyledwr i mewn i'r system a'u hawdurdodi.</p> <p>Mae dau o'r argymhellion categori Isel wedi cael eu gweithredu. Mae'r naw argymhelliad categori Isel sy'n weddill yn cael eu hailadrodd. Mae'r rhain yn ymwneud ag adolygu hawliau mynediad i'r system, dogfennaeth gefnogol ar gyfer anfonebau dyledwyr, adolygu ffioedd a thaliadau, dyblygu manylion dyledwyr, dyledion wedi'u canslo, debyd codau cost pan fo'n amlwg na fydd modd adfer dyledion, adroddiadau dangosyddion perfformiad dyledwyr ac adrodd ar berfformiad mewn perthynas â thargedau.</p> <p><b>Barn:</b> Gan roi ystyriaeth i'r materion a nodwyd, er y gellir rhoi peth sicrwydd i'r Cyngor bod y rheolaethau y mae'r sefydliad yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi eu dylunio'n addas ac yn cael eu gweithredu'n gyson, mae angen gweithredu i sicrhau</p>	

	Teitl yr Adroddiad	Dyddiad	Gwasanaeth	Cyfanswm Argymhellion yr Archwiliad	Negeseuon Allweddol	Lefel Sicrwydd
					bod y maes hwn yn cael ei reoli.	
3	Y Dreth Gyngor WIP 2014/15	Ebrill 2015	Adnoddau	8	<p>Cynhaliwyd archwiliad ar y Dreth Gyngor fel rhan o'r cynllun archwilio mewnol cyfnodol a gymeradwywyd ar gyfer 2014/15. Caiff y Dreth Gyngor ei gweinyddu gan y Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau. Roedd 34,553 o eiddo (ac eithrio eiddo nad ydynt mewn band) ym mis Mawrth 2013.</p> <p>Roedd cyfanswm y debyd a gasglwyd ar gyfer y Dreth Gyngor yn 2013/14 (net ar ôl eithriadau, gollyngiadau a budd-daliadau'r dreth gyngor) yn £30.8m a llwyddwyd i gasglu 97.1% o'r cyfanswm hwn o fewn y flwyddyn.</p> <p>Roedd yr adroddiad Treth Gyngor ar gyfer 2013/14 yn cynnwys un argymhelliad categori Canolig a chwe argymhelliad categori Isel. Roedd archwiliad 2014/15 wedi canfod bod yr argymhellion Canolig sy'n ymwneud â chysoni gyda'r Cofnod Postio heb gael eu gweithredu.</p> <p>Aseswyd bod pedwar o argymhellion Isel heb eu gweithredu a gwelwyd bod un argymhelliad Isel wedi cael ei weithredu'n rhannol. Mae'r argymhellion yn ymwneud â disgownt i bobl sengl, gweithdrefnau adennill dyledion, cyfrifon sy'n disgwyl am statws 'dyled wedi'i dileu', adolygu cyfrifon lle mae dyledion wedi'u gohirio, ac ymweliadau ag eiddo gwag.</p> <p><b>Barn:</b> Gan roi ystyriaeth i'r materion a nodwyd, gellir rhoi sicrwydd rhesymol i'r Cyngor bod y rheolaethau y mae'r sefydliad yn dibynnu arnynt i reoli'r risgiau hyn wedi eu dylunio'n addas, yn cael eu gweithredu'n gyson, ac yn effeithiol.</p> <p>Fodd bynnag, rydym wedi adnabod materion sy'n cynyddu'r</p>	Rhesymol

	Teitl yr Adroddiad	Dyddiad	Gwasanaeth	Cyfanswm Argymhellion yr Archwiliad	Negeseuon Allweddol	Lefel Sicrwydd
					tebygolrwydd y bydd y risgiau'n dod yn rhai gwirioneddol os na fyddant yn derbyn sylw.	
4	NNDR WIP 2014/15	Ebrill 2015	Adnoddau	8	<p>Cynhaliwyd archwiliad NNDR fel rhan o'r cynllun archwilio mewnol cyfnodol a gymeradwywyd ar gyfer 2014/15.</p> <p>Roedd cyfanswm yr eiddo (ac eithrio eiddo nad ydynt mewn band) ar 31 Mawrth 2014 yn 2,707.</p> <p>Roedd cyfanswm y debyd a gasglwyd ar gyfer NNDR yn 2013/14 (net ar ôl ad-daliadau) yn £13.6m a llwyddwyd i gasglu 97.9% o'r cyfanswm hwn o fewn y flwyddyn. Adroddwyd bod cyfartaledd y gyfradd casglu trethi ar gyfer yr holl Awdurdodau Unedol yng Nghymru yn 97.1%.</p> <p>Roedd yr adroddiad NNDR ar gyfer 2013/14 yn cynnwys dau argymhelliad categori Canolig ac wyth argymhelliad categori Isel. Mae ein gwaith dilynol yn 2014/15 wedi canfod nad yw'r argymhellion Canolig sy'n ymwneud â chysoni cyfanswm gwerth biliau gyda nifer yr etifeddiannau y gellir eu trethu a chlirio dyledion sydd wedi'u dileu ac sydd wedi bod ar y system am fwy na deuddeg mis, wedi cael eu gweithredu.</p> <p>Gweithredwyd un argymhelliad categori Isel ac mae dau wedi cael eu disodli. Aseswyd nad yw'r pum argymhelliad categori Isel sy'n weddill wedi cael eu gweithredu. Mae'r argymhellion hyn yn ymwneud â phrosesu dyledion i'w dileu ar y system yn brydlon, cynnal ymweliadau ag eiddo sydd wedi'u heithrio, defnyddio gweithdrefnau adfer mewn modd cyson, cyfeirio dyledion yn brydlon at Asiantau Gorfodi ac adolygu cyfrifon lle mae dyledion wedi'u gohirio.</p> <p><b>Barn:</b> Gan roi ystyriaeth i'r materion a nodwyd, gellir rhoi sicrwydd</p>	Rhesymol



	Teitl yr Adroddiad	Dyddiad	Gwasanaeth	Cyfanswm Argymhellion yr Archwiliad	Negeseuon Allweddol	Lefel Sicrwydd
					<p>rhesymol i'r Cyngor bod y rheolaethau y mae'r sefydliad yn dibynnu arnynt i reoli'r risgiau hyn wedi eu dylunio'n addas, yn cael eu gweithredu'n gyson, ac yn effeithiol.</p> <p>Fodd bynnag, rydym wedi adnabod materion sy'n cynyddu'r tebygolrwydd y bydd y risgiau'n dod yn rhai gwirioneddol os na fyddant yn derbyn sylw.</p>	
5	Budd-daliadau Tai WIP 2014/15	Ebrill 2015	Adnoddau	11	<p>Cynhaliwyd archwiliad o'r Rheolaethau Allweddol – Budd-daliadau Tai fel rhan o'r cynllun archwilio mewnol cyfnodol a gymeradwywyd ar gyfer 2014/15. Roedd cyfanswm y Budd-daliadau Tai a dalwyd yn 2014/15 am y cyfnod 01/04/2014 hyd at 11/02/2015 yng nghyswllt tenantiaid preifat oddeutu £8.5 miliwn ac ar gyfer tenantiaid yr ALI yn £7m. Roedd y cyfanswm a ddyfarnwyd dan y cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor oddeutu £5m.</p> <p>Roedd y llwyth achosion a gofnodwyd hyd at Ionawr 2015 ar gyfer Hawliadau Budd-dal Tai yn 49,230 ac roedd yn 65,638 ar gyfer Hawliadau Gostyngiad y Dreth Gyngor.</p> <p>Mae'r Gwasanaeth Budd-daliadau o fewn ei darged o ran yr amser a gymerir i brosesu newid mewn amgylchiadau, ar ôl derbyn yr holl wybodaeth sydd ei hangen i wneud penderfyniad o fewn 14 diwrnod o hawliad newydd ac o ran gwiriadau cywirdeb a wnaed yn y cyfnod. Fodd bynnag, nid yw'r Gwasanaeth wedi cyrraedd targedau a osodwyd mewn perthynas â phrosesu ceisiadau newydd ac adnabod achosion lle mae'r budd-dal sy'n ddyledus wedi cael ei gyfrifo'n anghywir.</p> <p>Y maes mwyaf arwyddocaol lle mae'r Gwasanaeth wedi bod yn aneffeithiol yn y cyfnod hwn yw adennil gordaliadau budd-dal</p>	Rhesymol

	Teitl yr Adroddiad	Dyddiad	Gwasanaeth	Cyfanswm Argymhellion yr Archwiliad	Negeseuon Allweddol	Lefel Sicrwydd
					<p>sydd wedi cynyddu yn ystod y cyfnod.</p> <p>Roedd yr adroddiad Archwilio Mewnol ar Fudd-daliadau Tai 2013/14 yn cynnwys 5 argymhelliad categori Canolig a 6 argymhelliad categori Isel. Fe wnaeth gwaith dilynol yn 2014/15 gafod, ar adeg yr adolygiad, fod 4 o argymhellion blaenoriaeth Ganolig a 5 o argymhellion blaenoriaeth Isel wedi cael eu gweithredu.</p> <p>Mae'r 2 argymhelliad a aseswyd fel rhai sydd heb eu gweithredu yn ymwneud â chysoni a dileu dyledion nad oes modd eu hadennill a gwahanu dyletswyddau rhwng rolau dyrannu ac adfer.</p> <p><b>Barn:</b> Gan roi ystyriaeth i'r materion a nodwyd, gellir rhoi sicrwydd sylweddol i'r Cyngor bod y rheolaethau y mae'r sefydliad yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi eu dylunio'n addas, yn cael eu gweithredu'n gyson, ac yn effeithiol.</p>	
6	Rhenti Tai WIP 2014/15	Ebrill 2015	Adnoddau	4	<p>Cynhaliwyd archwiliad o Renti Tai fel rhan o'r cynllun archwilio mewnol cyfnodol a gymeradwywyd ar gyfer 2014/15. Ar adeg adrodd roedd Gwasanaeth Tai'r Cyngor yn rheoli 3798 o anheddau, 767 o fodurdai a 12 o eiddo ar les ar draws y Sir. Adroddwyd fod yr incwm rhent a amcangyfrifwyd ar gyfer 2014/15 yn £13.8M.</p> <p><b>Barn:</b> Gan roi ystyriaeth i'r materion a nodwyd, gellir rhoi sicrwydd sylweddol i'r Cyngor bod y rheolaethau y mae'r sefydliad yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi eu dylunio'n addas, yn cael eu gweithredu'n gyson, ac yn effeithiol.</p>	Sylweddol
7	Gwiriad Stoc DLO	Mai	Tai	D/B	Cynhaliwyd gwiriad stoc flynyddol gan Wasanaeth Archwilio	Sylweddol

	Teitl yr Adroddiad	Dyddiad	Gwasanaeth	Cyfanswm Argymhellion yr Archwiliad	Negeseuon Allweddol	Lefel Sicrwydd
	WIP 2014/15	2015			<p>Mewnol yr Awdurdod yn y Depo BMU ar 28 Mawrth 2015. Nodwyd fod cyfanswm gwerth y stoc wrth gau'r cyfrifon ym mis Ebrill 2015 yn £157,493.13.</p> <p><b>Barn:</b> Mae'r cofnodion stoc a gedwir yn y depo yn ddigon cywir ac yn darparu cofnod dibynadwy o'r lefelau stoc ar ddiwedd y flwyddyn.</p>	
Tudalen 145	8 Rheolaeth Trysorlys WIP 2014/15	Mai 2015	Adnoddau	2	<p>Cynhaliwyd archwiliad o Rheolaeth Trysorlys fel rhan o'r cynllun archwilio mewnol cyfnodol a gymeradwywyd yn 2014/15. Mae'r swyddogaeth Rheolaeth Trysorlys yn gweithredu oddi mewn i'r Strategaeth Rheoli Trysorlys a gymeradwywyd a'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol sy'n cael ei chymeradwyo gan y Cyngor llawn bob blwyddyn. Adroddwyd ar y sefyllfa bresennol o ran Rheoli Trysorlys (ar gyfer chwarter 3) i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Chwefror 2015.</p> <p>O ganlyniad i'r adolygiad Rheolaeth Trysorlys yn 2013/14 rhoddwyd barn archwilio Gwyrdd a gwnaed tri o argymhellion categori canolig. Mae gwaith dilynol a wnaed fel rhan o'r adolygiad eleni wedi canfod nad yw argymhellion blaenorol wedi cael eu gweithredu'n llawn eto. Mae'r argymhellion blaenorol yn ymwneud â:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Hawliau mynediad o fewn system net HSBC a dileu unrhyw ddefnyddwyr nad oes arnynt angen mynediad mwyach;</li> <li>Sicrhau bod dau lofnodwr awdurdodedig (gwahanu dyletswyddau) yna rwydo er mwyn trosglwyddo arian o fewn yr Awdurdod;</li> <li>I gynnal trywydd archwilio ac i ddarparu sicrwydd ynghylch gwahanu dyletswyddau dylai llofnodion ar gyfer gwirio</li> </ul>	Sylweddol

	Teitl yr Adroddiad	Dyddiad	Gwasanaeth	Cyfanswm Argymhellion yr Archwiliad	Negeseuon Allweddol	Lefel Sicrwydd
					<p>tystiolaeth neu ar gyfer awdurdodi neu gymeradwyo taliadau fod yn enw'r sawl sy'n cymryd y cam perthnasol ac ni ddylid eu harwyddo ar ran swyddog sy'n absennol. Dylid cofnodi prosesau a gweithdrefnau Rheoli Trysorlys yn llawn ac yn eglur a rhoi'r dyddiad arnynt er mwyn nodi pwy fedr gymeradwyo'r dogfennau sydd raid wrthynt a gwahanu dyletswyddau.</p> <p><b>Barn:</b> O ystyried y materion a nodwyd, gellir rhoi sicrwydd reesymol i'r Cyngor fod y rheolaethau y mae'r sefydliad yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi eu dylunio'n addas, eu gweithredu'n gyson a'u bod yn effeithiol.</p>	
	Rheolaeth Trysorlys WIP 2014/15	Mai 2015	Adnoddau	2	<p>Cynhaliwyd archwiliad o Reolaeth Trysorlys fel rhan o'r cynllun archwilio mewnol cyfnodol a gymeradwywyd yn 2014/15. Mae'r swyddogaeth Rheolaeth Trysorlys yn gweithredu oddi mewn i'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a gymeradwywyd a'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol sy'n cael ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn bob blwyddyn. Adroddwyd ar sefyllfa bresennol Rheoli Trysorlys (ar gyfer chwarter 3) i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Chwefror 2015.</p> <p>O ganlyniad i'r adolygiad Rheolaeth Trysorlys yn 2013/14 rhoddwyd barn archwilio Gwyrdd a gwnaed tri o argymhellion categori canolig. Mae gwaith dilynol a wnaed fel rhan o'r adolygiad eleni wedi canfod nad yw argymhellion blaenorol wedi cael eu gweithredu'n llawn eto. Mae'r argymhellion blaenorol yn ymwneud â:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Hawliau mynediad o fewn system HSBC a dileu unrhyw ddefnyddwyr nad oes arnynt angen mynediad mwyach;</li> <li>Sicrhau bod dau lofnodwr awdurdodedig (er mwyn sicrhau</li> </ul>	Sylweddol

	Teitl yr Adroddiad	Dyddiad	Gwasanaeth	Cyfanswm Argymhellion yr Archwiliad	Negeseuon Allweddol	Lefel Sicrwydd
					<p>gwahanu dyletswyddau) yn arwyddo ar gyfer trosglwyddo arian o fewn yr Awdurdod;</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Er mwyn cynnal trywydd archwilio a darparu sicrwydd bod dyletswyddau'n cael eu gwahanu dylai'r llofnodion ar gyfer gwirio tystiolaeth neu ar gyfer awdurdodi neu gymeradwyo taliadau fod yn enw'r sawl sy'n gwneud hynny ac ni ddylid arwyddo ar ran swyddog sy'n absennol. Dylid cofnodi prosesau a gweithdrefnau Rheoli Trysorlys yn llawn ac yn eglur a rhoi'r dyddiad arnynt er mwyn nodi pwy fedr gymeradwyo'r dogfennau sydd raid wrthynt a gwahanu dyletswyddau.</li> </ul> <p><b>Barn:</b> O ystyried y materion a nodwyd, gellir rhoi sicrwydd rhesymol i'r Cyngor fod y rheolaethau y mae'r sefydliad yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi eu dylunio'n addas, eu gweithredu'n gyson a'u bod yn effeithiol.</p>	
9	Rheolaethau Allweddol y Gyflogres WIP 2014/15	Mai 2015	Adnoddau	6	<p>Cynhaliwyd archwiliad o'r system Gyflogres – Rheolaethau Allweddol fel rhan o'r cynllun archwilio mewnol cyfnodol a gymeradwywyd ar gyfer 2014/15.</p> <p>Y system Gyflogau a ddefnyddir ar hyn o bryd yw Resourcelink a ddarperir gan Northgate ac mae'n system integredig ar gyfer Adnoddau Dynol a'r Gyflogres.</p> <p>Roedd 3,850 o gofnodion cyflogres byw ar ddiwedd mis Mawrth 2015 a 2,333 o gofnodion taledig yn y mis. Proseswyd 415 o ddechreuwyd newydd a 444 o adawyr ar y system Gyflogres yn ystod blwyddyn ariannol 2014/15.</p> <p>Roedd y casgliadau allweddol o'r adolygiad yn dwyn sylw at</p>	Rhesymol

	Teitl yr Adroddiad	Dyddiad	Gwasanaeth	Cyfanswm Argymhellion yr Archwiliad	Negeseuon Allweddol	Lefel Sicrwydd
					<p>ddiffyg gweithdrefnau ffurfiol ysgrifenedig a materion mewn perthynas â chadw cofnodion cyflogres yn ddiogel. Nid yw rheolaethau mynediad yn gorfodi gwahanu dyletswyddau rhwng swyddogaethau AD a swyddogaethau cyflogres. Mae'r diffyg rheolaethau gwahanu dyletswyddau wedi ei amlygu eisioes mewn adroddiad a wnaed yn flaenorol ar y system gyflogres ac mewn adolygiad ar wahân o drefniadau Gwahanu Dyletswyddau a Mynediad Rhesymegol.</p> <p><b>Barn:</b> O ystyried y materion a nodwyd, gellir rhoi sicrwydd rhesymol i'r Cyngor fod y rheolaethau y mae'r sefydliad yn dibynnu arnynt i reoli'r risgiau hyn wedi eu dylunio'n addas, eu gweithredu'n gyson a'u bod yn effeithiol.</p> <p>Fodd bynnag, nodwyd rhai materion a fyddai'n cynyddu'r tebygolrwydd y bydd risgiau'n digwydd.</p>	
10	Y Brif System Gyfrifo WIP 2014/15	Mehefin 2015	Adnoddau	6	<p>Cynhaliwyd archwiliad o Brif System Gyfrifo'r Cyngor – CIVICA fel rhan o gynllun archwilio mewnol a gymeradwywyd ar gyfer 2014/15.</p> <p>Ar adeg cynnal yr archwiliad roedd y tîm CIVICA wrthi'n ail-lansio'r system. Penderfynwyd ail-lansio'r system oherwydd nifer o wendidau canfyddedig yn y ffordd y cafodd y system ei chyflwyno a sut y defnyddiwyd hi wedyn gan y gwasanaethau. Roedd y trefniadau gweinyddiaeth ar gyfer y system hefyd yn ddiffygiol, yn bennaf oherwydd dogfenaeth wael o ran gweithdrefnau.</p> <p>Rhagwelir y bydd y system CIVICA wedi cael ei hail-lansio i bob</p>	Rhesymol

	Teitl yr Adroddiad	Dyddiad	Gwasanaeth	Cyfanswm Argymhellion yr Archwiliad	Negeseuon Allweddol	Lefel Sicrwydd
					<p>pwrpas erbyn diwedd eleni ac y bydd yr holl faterion sydd wedi codi yn yr archwiliad wedi cael sylw fel rhan o hynny.</p> <p><b>Barn:</b> Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethiant, rheoli risg a / neu rheolaeth fewnol yn rhesymol. Arweiniodd yr adolygiad at farn archwilio Sicrwydd Rhesymol gyda phedwar o argymhellion categori Canolig a dau argymhelliad categori Isel yn cael eu cytuno gyda'r rheolwyr.</p>	
Tudalen 149	Adfer Gwasanaethau TGCh ar ôl Trychineb	Gorffennaf 2015	Adnoddau	13	<p>Cynhaliwyd yr archwiliad hwn fel rhan o'r cynllun Archwilio Mewnol a gymeradwywyd ar gyfer 2015/16.</p> <p>Cynhaliodd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol adolygiad yn 2012/13 o'r trefniadau rheoli ar gyfer Parhad Busnes ac Adfer Gwasanaethau TGCh ar ôl Trychineb.</p> <p>Barn y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar y pryd oedd na allai'r Cyngor gymryd sicrwydd bod y rheolaethau y mae'n dibynnu arnynt i reoli'r meysydd hyn wedi eu dylunio'n addas ac yn cael eu gweithredu'n gyson ac yn effeithiol (lefel sicrwydd ISEL IAWN). Cytunwyd ar argymhellion ar gyfer gweithredu ond mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi cael gwybod mai ychydig a wnaed ers hynny. Nid yw'r adroddiad archwilio 2015/16 ond yn delio â chynlluniau Adfer Gwasanaethau TGCh ar ôl Trychineb. Paratowyd adroddiad ar wahân ar faterion Parhad Busnes.</p> <p>Roedd y prif gasgliadau yn adroddiad 2015/16 yn dangos:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Nid oes gan y Cyngor Gynllun ffurfiol ar gyfer Adfer Gwasanaethau TGCh ar ôl Trychineb</li> <li>Nid oes gan y Cyngor gyfleuster pwrpasol sydd wedi ei leoli i ffwrdd o'r Ystfelloedd TGCh i adfer gwasanaethau</li> </ul>	Isel iawn

	Teitl yr Adroddiad	Dyddiad	Gwasanaeth	Cyfanswm Argymhellion yr Archwiliad	Negeseuon Allweddol	Lefel Sicrwydd
					<p>TG ar ôl trychineb</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae angen i wasanaethau gwblhau cynlluniau busnes diweddar i fwydo i mewn i Gynlluniau Adfer Gwasanaethau TGCh ar ôl Trychineb yn y dyfodol</li> <li>Nid yw'r system a'r data wrth gefn yn cael eu hadfer yn rheolaidd</li> <li>Nid yw'r system yn cael ei hadfer yn rheolaidd mewn amgylchedd byw ac amgylchedd prawf i sicrhau y gellir defnyddio'r trefniadau wrth gefn i adfer gwasanaeth yn brydlon ac yn ddibynadwy os cyfyd trychineb</li> <li>Nid yw'r trefniadau ar gyfer pwy sy'n gyfrifol am gynnal rheolaeth amgylcheddol a systemau atal tân yn cael eu cofnodi'n ffurfiol a'u monitro gan TGCh</li> <li>Nid yw'r UPS cyfredol yn addas i'w bwrpas, ac felly nid oes gan y Cyngor UPS y gallai ei ddefnyddio pe bai toriad i'r cyflenwad trydan.</li> </ul> <p><b>Barn:</b> Mae diffyg sylweddol yn y trefniadau ar gyfer llwyodraethaint, rheoli risg a rheolaeth fewnol. Mae angen cymryd camau rheoli effaith fawr mewn nifer o feysydd.</p> <p><b>Mae'r argymhellion yn rhai blaenoriaeth uchaf yn bennaf</b></p>	
12	Gweinyddiaeth y Marchnadoedd ac Incwm Rhent	Gorffen naf 2015	Gwarchod y Cyhoedd a Chynllunio	4	<p>Cynhaliwyd archwiliad o Weinyddiaeth y Marchnadoedd ac Incwm Rhent fel rhan o'r cynllun archwilio mewnol diwygiedig ar gyfer 2015/16. Nid yw'r maes gwasanaeth hwn wedi bod yn destun adolygiad archwilio ers 2006.</p> <p>Dangosodd y casgliadau allweddol o'r archwiliad nad oedd y gweithdrefnau wedi cael eu hadolygu a'u diweddarau i adlewyrchu</p>	Rhesymol



	Teitl yr Adroddiad	Dyddiad	Gwasanaeth	Cyfanswm Argymhellion yr Archwiliad	Negeseuon Allweddol	Lefel Sicrwydd
					<p>newidiadau diweddar yng ngweithredoedd y farchnad a'r trefniadau bancio.</p> <p>Roedd yn amlwg hefyd nad oedd system fonitro i sicrhau bod yr holl fasnachwyr yn cynnal ac yn darparu tystiolaeth o ddiogelwch gswiriant atebolrwydd cyhoeddus digonol.</p> <p><b>Barn:</b> Arweiniodd yr adolygiad at farn archwilio Sicrwydd Rhesymol gyda thri o argymhellion categori Canolig ac un argymhelliad categori Isel yn cael eu cytuno gyda'r rheolwyr.</p>	
13 Tudalen 151	Parhad Busnes	Gorffennaf 2015	Corfforaethol	7	<p>Cynhaliwyd archwiliad o drefniadau Parhad Busnes fel rhan o'r cynllun archwilio mewnol cyfnodol a gymeradwywyd ar gyfer 2015/16.</p> <p>Mae Rheoli Parhad Busnes yn ddyletswydd statudol i awdurdodau lleol ac yn rhan allweddol o'r prosesau llywodraethaint. Yn unol â Deddf Argyfyngau Sifil Posib 2004 rhaid paratoi a gweithredu cynlluniau i sicrhau bod gwasanaethau, yn arbennig gwasanaethau statudol, yn medru parhau.</p> <p>Prif gasgliadau'r adolygiad ar y Cynllun Parhad Busnes Dros Dro yw nad yw, yn ei ffurf gyfredol, yn ddigon cyflawn i sicrhau bod modd adfer data a phrosesau'r Cyngor yn effeithlon ac yn effeithiol pe bai trychineb yn digwydd.</p> <p>Nid yw cyfrifoldebau'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Penaethiaid Gwasanaeth mewn perthynas â Pharhad Busnes wedi eu datgan yn eglur o fewn y Cynllun Parhad Busnes ac nid yw materion</p>	Cyfyngedig

	Teitl yr Adroddiad	Dyddiad	Gwasanaeth	Cyfanswm Argymhellion yr Archwiliad	Negeseuon Allweddol	Lefel Sicrwydd
					<p>Parhad Busnes yn cael eu hadrodd a'u rheoli ar y lefel uchaf.</p> <p>Dylai'r gwaith i sefydlu Gweithgor Rheoli Parhad Busnes a Chynllunio Argyfwng barhau a dylai'r Cynllun Parhad Busnes Corfforaethol cynhwysfawr ymgorffori trefniadau Rheolaeth Adfer Adeiladau.</p> <p><b>Barn:</b> Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethiant, rheoli risgiau a rheolaeth fewnol yn gyfyngedig. Arweiniodd yr adolygiadau at Farn Archwilio Sicrwydd Cyfyngedig gyda phump o argymhellion categori Uchel a dau argymhelliad categori Canolig yn cael eu cytuno gyda'r rheolwyr.</p>	
14	Fframwaith Rheoli Risg a'r 5 Prif Risg	Medi 2015	Corfforaethol	3	<p>Cynhaliwyd yr archwiliad hwn fel rhan o'r cynllun cyfnodol Archwilio Mewnol a gymeradwywyd ar gyfer 2015/16.</p> <p>Comisiynodd yr UDA adolygiad o'r modd y defnyddir y Fframwaith Rheoli Risg yn haf 2014 a chanfuwyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bod y modd y defnyddir y fframwaith risg ar draws y Cyngor yn anghyson</li> <li>• Nid yw'r berthynas rhwng cofrestrau risg y gwasanaethau a'r gofrestr gorfforaethol yn glir</li> <li>• Diffyg eglurder ynghylch y broses ar gyfer uwchgyfeirio neu atborth; a</li> <li>• Nid yw risg wedi ei halinio'n dda gyda'r broses gynllunio a</li> </ul>	Rhesymol

	Teitl yr Adroddiad	Dyddiad	Gwasanaeth	Cyfanswm Argymhellion yr Archwiliad	Negeseuon Allweddol	Lefel Sicrwydd
					<p>rheoli perfformiad.</p> <p>Mae'r Polisi a'r Prosesau wedi cael eu hadolygu ac mae uwch swyddogion a staff wedi cael hyfforddiant. Mae Cofrestrau Risg y Gwasanaethau wrthi'n cael eu hadolygu a'u hymgorffori i'r Broses cynllunio Busnes ac roedd Cofrestr Risg Gorfforaethol ddiwygiedig wedi cael ei sefydlu erbyn diwedd Chwarter 1 yn 2015.</p> <p>Ym mhrif ganfyddiadau'r adolygiad, nodwyd nad yw Cynlluniau Darparu Gwasanaeth bob amser yn cael eu cyflwyno'n brydlon ac o fewn amserlen gyda'r holl adrannau wedi eu cwblhau gan gynnwys y cysylltiadau i'r Cofrestrau Risg.</p> <p>Nid oedd tystiolaeth o'r rheoliadau cyfredol mewn perthynas â'r Gofrestr Risg Gorfforaethol bob amser ar gael.</p> <p><b>Barn:</b> Cafwyd barn archwilio Sicrwydd Rhesymol yn dilyn yr adolygiadau gyda dau o argymhellion categori Canolig ac un argymhelliad categori Isel yn cael eu cytuno gyda'r rheolwyr.</p>	
15	Llywodraethu Gwybodaeth – Adolygiad Blynyddol o Gydymffurfiaeth	Hydref 2015	Corfforaethol	7	<p>Cynhaliwyd archwiliad o Lywodraethu Gwybodaeth - Adolygiad Blynyddol o Gydymffurfiaeth fel rhan o'r cynllun cyfnodol Archwilio Mewnol a gymeradwywyd ar gyfer 2015/16.</p> <p>Y canfyddiadau allweddol o'r adolygiad yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Nid yw contractwyr trydydd parti sy'n prosesu data personol ar ran y Cyngor wedi cael eu nodi er mwyn sicrhau bod Cytundeb Prosesu Data priodol wedi cael ei weithredu ac nid yw Cytundebau Prosesu Data ar gael ar gyfer pob Contract 'Categori 1'.</li> <li>Nid oes unrhyw systemau, prosiectau neu brosesau wedi</li> </ul>	

	Teitl yr Adroddiad	Dyddiad	Gwasanaeth	Cyfanswm Argymhellion yr Archwiliad	Negeseuon Allweddol	Lefel Sicrwydd
					<p>cael eu gweithredu yn ystod yr adolygiad archwilio ac o'r herwydd nid oedd unrhyw dystiolaeth o Aseidiadau o'r Effaith ar Breifatrwydd a gynhaliwyd ar gael i'w hadolygu gan yr archwiliwr.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Nid oedd yr holl Berchenogion Asedau Data (PAD) yn gallu rhoi sicrwydd bod mesurau priodol yn eu lle i storio, symud, cadw a chael gwared ar gofnodiadau'n ddiogel mewn sefydliadau y tu allan i'r Pencadlys.</li> <li>Nid oes gan y Cyngor weithdrefnau ar gyfer rheoli cofnodiadau electronig sy'n cynnwys data cyfrinachol.</li> <li>Ni fedrir rhoi sicrwydd ynghylch a yw asesiad wedi ei gynnal o ddata personol a rennir ar hap oherwydd nid oedd y data ar gael i roi prawf arno.</li> <li>Nid yw'r holl staff yn cydymffurfio gyda'r Polisi Deg Glir a weithredwyd gan Reolwyr.</li> <li>Nid yw rhybuddion preifatrwydd y Cyngor a gyhoeddwyd gan bob gwasanaeth yn glir, yn gyson ac ar gael i gasglu, prosesu a rhannu data.</li> <li>Nid oes unrhyw gofnod canolog o'r holl rhybuddion preifatrwydd ac nid oedd unrhyw dystiolaeth fod rhybuddion preifatrwydd wedi cael eu trosglwyddo i'r templed corfforaethol ar gyfer rhybuddion preifatrwydd.</li> <li>Nid oedd unrhyw adroddiad ysgrifenedig wedi cael ei gyflwyno i'r UDA ynghylch digwyddiadau'n ymwneud â diogelwch data, achos y rheiny ac effeithiolrwydd yr ymateb yn unol â'r Polisi ar gyfer Digwyddiadau Diogelwch Data. Cydnabuwyd bod yr UDA wedi bod yn</li> </ul>	

	Teitl yr Adroddiad	Dyddiad	Gwasanaeth	Cyfanswm Argymhellion yr Archwiliad	Negeseuon Allweddol	Lefel Sicrwydd
					<p>cael gwybod ar lafar am unrhyw ddigwyddiadau.</p> <p><b>Barn:</b> Cafwyd barn archwilio Sicrwydd Rhesymol yn dilyn yr adolygiadau gyda phump o argymhellion categori Canolig a dau argymhelliad categori Isel yn cael eu cytuno gyda'r rheolwyr.</p>	

**CRYNODEB O YMCHWILIADAU ARBENNIG – 1 EBRILL 2015 I 31 HYDREF 2015**

Rhif y Dasg	Math o Ddigwyddiad	Nifer y Dyddiau	Sylwadau / Canlyniad
1955.14/15	Ysgol – honiad ynghylch anghysonderau ariannol	4.70	Gwnaed argymhellion i roi sylw i arferion gwael o ran cadw cofnodiadau ariannol.
2006.14/15	Uned Ailgylchu	0.34	Ystyrir bod y mesurau sydd ar gael i atal lladrad o'r safle yn ddigonol ac mae darpariaeth dda o ran camerâu goruchwylio. Ni fedrir cymryd unrhyw gamau pellach mewn perthynas â'r honiad diennw hwn.
005	£100 o arian parod ar goll	4.53	Mae ymchwiliad yr Heddlu i'r digwyddiad bellach wedi cau. Nodwyd gwendidau gan y rheolwyr a gweithredwyd ar unwaith ar fesurau i gryfhau'r gweithdrefnau.
010	Ysgol – Dwyn Arian	7.03	Y troseddwr wedi ymddiswyddo a'r ymchwiliad wedi'i gau.
014	Depo - Dwyn Diesel	3.11	Ymchwiliad yr Heddlu'n parhau.
017	Cyfeiriad gan LIC – Lwfans i Fyfyriwr Anabl – Taliadau Anghymwys	5.36	Cyfnod Drafft – Dim argymhellion wedi eu gwneud mewn perthynas â'r cyfeiriad hwn oherwydd nid yr Awdurdod Lleol sydd mwyach yn gweinyddu'r Lwfansau i Fyfyriwr Anabl.
022	Agor atyniad i ymwelwyr heb awdurdod	18.31	Yr ymchwiliad wedi dod i ben. Adroddiad wrthi'n cael ei baratoi ar hyn o bryd.
031	Gweithiwr yn gwneud gwaith cyflogedig pan oedd i ffwrdd yn sâl	0.20	Dim digon o wybodaeth i gyfiawnhau ymchwiliad pellach. Cyfeiriad ebost yn unig oedd yr unig dystiolaeth o gyflogaeth ychwanegol.
032	Dwyn arian personol o ystafell ddosbarth mewn ysgol	2.64	Ymchwiliad yr Heddlu'n parhau. CCFP yn ymgynghori gyda'r Heddlu ynghylch camau pellach.
	Achos posibl o dorri rheolau data – post a ddanfonwyd â llaw	1.82	CCFO yn ymgynghori gyda'r Swyddog Gwybodaeth Gorfforaethol a Staff y Dderbynfa ynghylch mabwysiadu rhyw ddull o gofnodi post preifat/cyfrinachol a ddanfonir â llaw
<b>CYFANSWM NIFER Y DYDDIAU</b>		<b>48.00</b>	

<b>CYNGOR SIR YNYS MÔN</b>	
<b>PWYLLGOR:</b>	<b>PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHIANT</b>
<b>DYDDIAD:</b>	<b>8 RHAGFYR 2015</b>
<b>TEITL YR ADRODDIAD:</b>	<b>ADOLYGIAD O'R PROTOCOL AR ÔL EI DDIWYGIO A'I DDIWEDDARU</b>
<b>ADRODDIAD GAN:</b>	<b>PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL – MIKE HALSTEAD</b>
<b>SWYDDOG CYSWLLT:</b>	<b>RHEOLYDD ARCHWILIO – SIONED PARRY</b>

**Natur a Rheswm dros Adrodd** – cydymffurfio gyda gofynion Safonau Archwilio Mewnol Sector Cyhoeddus y DU a Safonau DU CIPFA a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2013 lle mae'n rhaid i'r Pennaeth Archwilio ddilyn i fyny camau gweithredu a gymerwyd gan reolwyr yn codi o'i drafodaethau

## **1. RHAGARWEINIAD**

- 1.1 Mae gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Broctocol Archwilio Mewnol y cytunwyd arno gydag uwch reolwyr sy'n nodi'r gwahanol gamau ar gyfer ymgysylltiadau Archwilio Mewnol a'r amserlenni ar gyfer cyflawni'r rhain.
- 1.2 Yn y Protocol Archwilio Mewnol hwn, nodir methodoleg ac amserlenni y cytunwyd arnynt ar gyfer cynllunio, perfformiad a rhoi gwybod am ganlyniadau adolygiadau Archwilio Mewnol yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Yn y Protocol, nodir yr hyn sydd ei angen gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol a'i gleientiaid er mwyn cyflawni yn y modd gorau'r amcanion archwilio a bennwyd.
- 1.3 Mewn adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant ar 27 Gorffennaf 2015, nododd y Pennaeth Archwilio Mewnol Dros Dro y gwaith yr oedd angen ei wneud er mwyn gwella'r broses ar gyfer casglu'r data a oedd yn ymwneud ag argymhellion y cytunwyd arnynt a'r modd y caiff cynnydd o ran eu gweithredu ei fonitro fel y gellir cyflwyno adroddiadau cywir i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a rhoddi sicrwydd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant.
- 1.4 Ni fedrir gwella'r fframwaith rheolaeth fewnol na leihau'r risgiau cysylltiedig hyd oni fydd yr argymhellion wedi cael eu gweithredu'n llawn. Caiff proses Ddilyn i Fyny a Monitro i roi sicrwydd fod yr argymhellion y cytunwyd arnynt wedi cael eu gweithredu o fewn yr amserlenni a bennwyd yn y Cynllun Gweithredu yn yr Adroddiad Terfynol ei nodi ym Mharagraffau 10 ac 11 y Protocol Archwilio Mewnol sydd ynghlwm. Mae'r trefniadau Dilyn i Fyny ar gyfer sefydliadau (Cartrefi ar gyfer yr Henoed a Phlant, Canolfannau Gofal Dydd, Canolfannau Hamdden, Llyfrgelloedd, Amgueddfeydd ac ati) yr un fath ac eithrio archwiliadau ysgolion a amlinellir ar Dudalen 13, Paragraff 6.
- 1.5 Mae'r Protocol wedi cael ei adolygu a'i ddiweddarau'n unol â rheoliadau a gweithdrefnau cyfredol.

## **2. CAMAU GWEITHREDU ANGENRHEIDIOL**

- 2.1 Mae'r Protocol Archwilio Mewnol yn cael ei gyflwyno yma er gwybodaeth ac er sylwadau'r Pwyllgor Archwilio.





**CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL**

<b>Teitl:</b>	<b>PROTOCOL ARCHWILIO MEWNOL</b>
<b>Dyddiad yr Adolygiad diwethaf:</b>	<b>PWYLLGOR ARCHWILIO - 8 Rhagfyr 2015</b>
<b>Dyddiad yr Adolygiad nesaf:</b>	<b>PWYLLGOR ARCHWILIO – Ebrill 2017</b>
<b>Awdur:</b>	<b>RHEOLWR ARCHWILIO</b>

## **PROTOCOL AR GYFER ARCHWILIO MEWNOL**

### **Cyflwyniad**

Mabwysiadodd y Gosodwyr Safonau Archwilio Mewnol Perthnasol (RIASS) gyfres gyffredin o Safonau Archwilio Mewnol ar gyfer y Sector Cyhoeddus (PSIAS) o 1 Ebrill 2013. Mae'r PSIAS yn cwmpasu elfennau mandadol Fframwaith Arferion Proffesiynol Rhyngwladol (IPPF) Sefydliad yr Archwilwyr Mewnol (IIA). Y RIASS perthnasol ar gyfer llywodraeth leol yn y Deyrnas Unedig yw CIPFA. (PSIAS – Trosolwg o'r Fframwaith)

### **Pwrpas y Protocol**

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r Safonau Archwilio Mewnol ar gyfer y Sector Cyhoeddus (PSIAS) a rhaid i'r holl weithgareddau Archwilio Mewnol gydymffurfio gyda'r safonau hyn. Mae'r Safonau Archwilio Mewnol ar gyfer y Sector Cyhoeddus yn cynnwys, ymysg eraill, safonau sy'n ymwneud â'r isod:

- Cynllunio Ymgysylltiad (PSIAS 2200) sy'n ymwneud ag Amcanion Ymgysylltiad, Sgôp, Adnoddau a Rhaglenni Gwaith (PSIAS 2210; 2220; 2230 & 2240).
- Cyflawni'r Ymgysylltiad (PSIAS 2300) sy'n cynnwys Goruchwylio Ymgysylltiad (2340).
- Rhoi gwybod am Ganlyniadau (PSIAS 2400) sy'n cynnwys y Meini Prawf ar gyfer Cyfathrebu (2410) a Rhannu Canlyniadau (2440).
- Monitro Cynnydd (PSIAS 2500) sy'n cynnwys sefydlu proses ddilyn i fyny er mwyn monitro a sicrhau bod rheolwyr wedi gweithredu'n effeithiol

(2500 A1) a monitro rhannu canlyniadau ymgysylltiadau ymgynghori (2500 A2).

Yn y Protocol Archwilio Mewnol hwn, nodir methodoleg ac amserlenni y cytunwyd arnynt ar gyfer cynllunio, perfformiad a rhoi gwybod am ganlyniadau adolygiadau Archwilio Mewnol yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Yn y Protocol, nodir yr hyn sydd ei angen gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol a'i gleientiaid er mwyn cyflawni yn y modd gorau yr amcanion archwilio a bennwyd.

## **Diffiniad o Archwilio Mewnol**

Caiff Archwilio Mewnol ei ddiffinio fel a ganlyn yn y Safonau Archwilio Mewnol ar gyfer y Sector Cyhoeddus:

*“Internal auditing is an independent, objective assurance and consulting activity designed to add value and improve an organisation’s operations. It helps an organisation accomplish its objectives by bringing a systematic, disciplined approach to evaluate and improve the effectiveness of risk management, control and governance processes.” (PSIAS – adran 3)*

## **Amcanion Archwilio**

Amcan unrhyw archwiliad yw cynorthwyo a chefnogi rheolwyr i nodi cryfderau a gwendidau mewn systemau a gwella'r systemau ar gyfer llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol. Er mwyn cyrraedd y nod cyffredin hwn, rhaid i'r naill barti a'r llall gyfathrebu a chydweithio drwy gydol y broses er mwyn sicrhau fod yr archwiliad yn diwallu anghenion yr adran gleient a'r sefydliad yn ei gyfanrwydd. Pwrpas y protocol hwn yw darparu model o system y gall Archwilwyr a Chleientiaid ei dilyn ac er mwyn sicrhau mewnbwn i'r broses gan yr Adran Gleient. Dan rai amgylchiadau, mae'n bosib y gellir cyfiawnhau gwyro o'r model hwn.

Nid yw'r protocol hwn ond yn ymwneud ag archwiliadau cynlluniedig a nodwyd yn y rhaglen archwilio ac nid yw'n cynnwys ymchwiliadau arbennig neu archwiliadau sy'n golygu y bydd yr archwiliwr yn ymweld yn ddirybudd.

### **1. Cynllunio Archwiliad**

- 1.1 Yn unol â'r Safonau Archwilio Mewnol ar gyfer y Sector Cyhoeddus, y prif swyddog archwilio sy'n gyfrifol am ddatblygu cynllun yn seiliedig ar risg. Bydd y prif swyddog archwilio yn cymryd i ystyriaeth fframwaith rheoli risg y sefydliad gan gynnwys defnyddio'r lefel awch o ran risg a osodwyd gan reolwyr ar gyfer gwahanol weithgareddau neu rannau o'r sefydliad. Onid oes fframwaith ar gael, bydd y prif swyddog archwilio yn defnyddio ei farn/barn ei hun ynglŷn â'r risgiau ar ôl ystyried mewnbwn gan uwch reolwyr a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant. Rhaid i'r prif swyddog archwilio adolygu ac addasu'r cynllun yn ôl yr angen, mewn ymateb i newidiadau ym musnes, risgiau, gweithrediadau, rhaglenni, systemau a dulliau rheoli'r sefydliad. (PSIAS 2010 - Cynllunio)
- 1.2 Bydd y broses o gynllunio archwiliad yn cael ei wneud yn flynyddol ym mis lonawr a Chwefror ac fe'i cynllunnir trwy wneud asesiad risg o holl feysydd y sefydliad. Byddir yn cytuno ar y rhan berthnasol o'r cynllun archwilio gyda phob

Gwasanaeth unigol cyn pob blwyddyn ariannol. Canlyniad hyn oll yw bod pob uwch reolydd yn cael gwybod am bob maes o dan eu rheolaeth, y mae'r Archwiliwr Mewnol yn bwriadu ei archwilio yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

Mae'r broses cynllunio'n gyfle i gael trafodaeth rhwng Archwilio Mewnol a'r Gwasanaethau i nodi unrhyw feysydd lle cafwyd newid neu bryder yn y meysydd sydd i'w hadolygu. Bydd y materion fydd yn cael eu trafod yn cael eu bwydo i mewn i'r cyfnod cynllunio ar gyfer yr archwiliadau hyn. Mae cael ymwneud uwch reolwyr y Cyngor yn y broses hon yn hanfodol er mwyn sicrhau bod archwiliadau yn cael eu dylunio er mwyn ychwanegu'r gwerth mwyaf i bob maes.

Bydd y cyfnod cynllunio yn golygu cael trafodaeth ar ddyddiadau bras ar gyfer gwneud yr archwiliadau er mwyn osgoi amseroedd prysur i'r adrannau ac i darfu cyn lleied ag sy'n bosibl ar waith yr adran. Lle bo'n bosibl, bydd archwilio mewnol yn dylunio'r rhestr archwilio o gwmpas y dyddiadau bras hyn. Fodd bynnag, er mwyn ffitio i mewn gyda gofynion yr Archwiliwr Allanol, neu er mwyn sicrhau bod unrhyw sgiliau penodol sydd eu hangen i gwblhau rhai adolygiadau ar gael, efallai y bydd raid newid yr amseroedd y cytunwyd arnynt yn dilyn trafodaethau gyda'r Gwasanaethau.

Er mwyn i bob archwiliad fod yn hollol gefnogol i'r rheolwyr ac i ychwanegu gwerth mae'n hanfodol bod rheolwyr ac archwilio mewnol yn gweithio gyda'i gilydd a bod yr Archwiliwr Mewnol yn gallu mynd at y bobl a'r wybodaeth iawn ar yr amser iawn.

- 1.3 Pan fo'r Archwiliwr yn barod i ddechrau unrhyw archwiliad arbennig sy'n cael ei nodi yn y Cynllun Archwilio, byddir yn hysbysu'r uwch reolwr perthnasol trwy femorandwm **o leiaf 7 niwrnod cyn dyddiad arfaethedig y cyfarfod sgopio**. Fe ddylai'r memorandwm roddi disgrifiad byr o'r cylch gorchwyl a fwriedir, er y gellir cael amgylchiadau lle nad yw'n bosibl i'r Archwiliwr lunio'r cylch gorchwyl a fwriedir ar yr amser hwn (e.e. system newydd nad yw wedi ei harchwilio cyn hynny). Os yn bosibl, fe ddylid hefyd roddi dyddiad ar gyfer dechrau'r gwaith.
- 1.4 Fel cam cychwynol yr archwiliad, bydd cyfarfod sgopio yn cael ei gynnal rhwng yr Archwiliwr a'r Penaeth(iaid) Gwasanaeth **o leiaf 7 niwrnod cyn rhyddhau'r daflen cynllunio archwiliad**. Pwrpas y cyfarfod hwn yw trafod y meysydd y mae'r Archwiliwr wedi eu hasesu fel rhai sydd â risg digonol i fod angen eu cynnwys yn yr archwiliad a hefyd i ystyried pryderon a blaenoriaethau'r client ac i fwydo'r meysydd hyn i mewn i'r broses cynllunio er mwyn cytuno ar gylich gorchwyl terfynol yr archwiliad.  

Fodd bynnag, wrth lunio'r cylch gorchwyl, fe ddylid nodi bod rhaid i'r Archwiliwr gynnal ei h/annibyniaeth ac ni all cleientiaid fynnu bod meysydd yn cael eu tynnu ymaith o'r cylch gorchwyl os yw asesiad risg yr archwiliwr yn nodi y dylai'r maes penodol hwnnw gael ei gynnwys. Yn hyn o beth, bydd raid i Archwilio Mewnol gynnwys meysydd y bydd yn rhaid eu cael er mwyn i Archwilio Allanol a chydranddeiliaid gael sicrwydd o'u gwaith.
- 1.5 Bydd y cyfarfod sgopio hefyd yn nodi'r person fydd yn gweithredu fel y prif bwynt cyswllt yn ystod yr archwiliad. Gall y Swyddog Cyswllt a enwebwyd fod yn uwch reolwr neu'n rheolwr o fewn y Gwasanaeth sy'n gyfrifol am y maes sy'n cael ei archwilio.

- 1.6 Bydd y cyfarfod sgopio hwn hefyd yn caniatáu i'r Archwiliwr a'r client nodi ffynonellau defnyddiol o wybodaeth y gall yr Archwiliwr eu defnyddio yn ystod yr adolygiad.
- 1.7 Y pwynt olaf i'w gytuno yn y cyfarfod sgopio fydd cyfnod amser yr archwiliad h.y. pa bryd y bydd yn dechrau, am ba hyd y disgwylir i'r gwaith barhau a pha bryd y bydd y cyfarfod cloi yn cael ei gynnal. Bydd y cyfnod amser yn dibynnu ar y math o archwiliad a pha mor ddyrws fydd y gwaith a wneir a rhaid pwysleisio na fydd y dyddiau a benodir yn ddyddiau gwaith dilynol gan y bydd y gwaith yn cael ei wneud ochr yn ochr â gwaith a phrosiectau archwilio eraill.
- 1.8 Ar gyfer archwiliadau o natur gorfforaethol fydd yn mynd i'r afael â materion sefydliad cyfan, bydd y memorandwm cychwynnol yn cael ei e-bostio i'r Prif Weithredwr ac ef/hi fydd yn penderfynu pa uwch reolwr fydd yn arwain ar ran y Cyngor. Cytunir ar y Daflen Cynllunio Archwiliad gyda'r uwch reolwr arweiniol hwn/hon.
- 1.9 Bydd canlyniadau'r cyfarfod sgopio yn cael eu rhoi i mewn ym mhapurau gweithio'r Archwiliad Mewnol ac yn cael eu rhoi i'r client fel Taflen Cynllunio Archwiliad (Briff Archwilio) **o fewn 7 diwrnod i'r cyfarfod sgopio**. Bydd y ddogfen yn nodi amcanion yr archwiliad a'r cyfyngiadau o ran ei sgôp. Bydd dyddiad dechrau gwaith maes yr archwiliad a'r dyddiad y rhagwelir y daw i ben hefyd yn cael eu cynnwys. Rhaid cytuno ar gynnwys y ddogfen hon a'i harwyddo gan y Pennaeth Gwasanaeth neu'r swyddog cyswllt a enwebwyd cyn dechrau'r gwaith maes.
- 1.10 Bydd y Daflen Cynllunio Archwiliad yn cynnwys manylion am yr wybodaeth a'r data allweddol y bydd yr Archwiliwr eu hangen ar ddechrau'r archwiliad. Fe all hyn gynnwys copïau o nodiadau gweithdrefnau perthnasol, siartiau trefnu, gwahanol adroddiadau system, copïau o gofnodion cyfarfodydd ac yn y blaen. Dylid neilltuo digon o amser rhwng dyddiad rhoi allan y Daflen Cynllunio Archwiliad a dyddiad gwaith maes yr archwiliad i ganiatáu amser i'r rheolwyr ganfod a choladu'r wybodaeth hon ar gyfer diwrnod dechrau'r gwaith maes.
- 1.11 Dylai rheolwr ddarparu gwybodaeth yn electronig lle mae hynny'n bosibl oherwydd bydd Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cynhyrchu ffeiliau a phapurau archwilio electronig lle bynnag y bydd hynny'n bosibl.

## 2. Cynnal yr Archwiliad

- 2.1 Bydd yr archwiliad yn cael ei gynnal wedyn gydag unrhyw gwestiynau ac atborth cyffredinol yn cael eu cyfeirio i'r Swyddog Cyswllt.
- 2.2 Os bydd canfyddiadau cychwynnol yr archwiliad yn nodi bod risgiau neu broblemau arwyddocaol neu ffactorau annisgwyl, bydd y rhain yn cael eu cyfeirio yn ôl i'r uwch reolwr perthnasol a bydd unrhyw waith ychwanegol yn cael ei drafod. Os nodir gwendidau rheoli arwyddocaol sy'n golygu bod angen gweithredu ar unwaith, yna bydd **adroddiad dros dro** yn manylu ar y gwendidau hyn yn cael ei gyhoeddi gan yr Archwiliwr Mewnol fydd hefyd yn nodi'r camau sydd i'w cymryd i liniaru neu i ddileu'r gwendidau hynny.
- 2.3 Bydd yr Archwiliwr yn cwblhau profion archwilio a bydd y gwaith yn cael ei adolygu gan Reolwr yr Archwiliad neu Uwch Archwiliwr Mewnol er mwyn sicrhau bod yr holl waith a nodwyd yn y Daflen Cynllunio Archwiliad wedi ei wneud yn

foddhaol a bod safon yr archwiliad yn unol â gofynion y Llawlyfr Archwilio a'r Safonau Archwilio Mewnol ar gyfer y Sector Cyhoeddus.

- 2.4 Bydd yr Archwiliwr yn hysbysu'r Swyddog Cyswllt ynglŷn â chynnydd cyffredinol yr adolygiad gan nodi a oes pethau'n dal yr archwiliad yn ôl neu'n nodi a ydyw'n rhagweld y bydd oedi sylweddol am unrhyw reswm. Gellir dod i gytundeb wedyn ar ddyddiad newydd i'r cyfarfod cloi.

### 3. Cyfarfodydd Di-briffio

- 3.1 Oni bai iddo gael ei nodi gan yr uwch reolwr perthnasol yn y cyfarfod cychwynnol, bydd cyfarfod di-briffio'n cael ei gynnal rhwng yr Archwiliwr, yr uwch reolwr ac unrhyw swyddog arall a enwebwyd gan y Pennaeth Gwasanaeth (fel arfer y Swyddog Cyswllt) **o fewn 7 diwrnod i gwblhau'r gwaith maes Archwilio** er mwyn trafod yr hyn a ganfuwyd, y casgliadau a'r argymhellion. Nid oes raid i'r uwch reolwr fynychu'r cyfarfod os yw ef/hi'n dymuno hynny ac fe all ddirprwyo'r broses di-briffio i'r Swyddog Cyswllt.
- 3.2 Bwriad y cyfarfodydd di-briffio yw rhoddi atborth ar ganlyniadau'r Archwiliad ac er mwyn i'r rheolwyr adolygu'r gwaith a wnaed ac i drafod unrhyw gamgymeriadau ffeithiol neu gamddealltwriaeth yn y gwaith a wnaed gyda'r Archwiliwr. Byddir hefyd yn defnyddio'r cyfarfodydd er mwyn adolygu'r argymhellion ac i sicrhau eu bod yn addas i'r ffordd y mae adrannau ac adeiniau unigol yn gweithredu. Dylai'r Archwiliwr sicrhau fod y ffeil archwilio ganddynt gan gynnwys tystiolaeth i gefnogi'r hyn a ganfuwyd fel yn briodol. Dylid sicrhau yn y cyfarfodydd di-briffio nad oes unrhyw beth annisgwyl i'r rheolwyr yn yr adroddiadau drafft ac i wneud pethau'n haws i'r rheolwyr ymateb pan gaiff y drafft ei roi allan. Bydd arwydd ynglŷn â'r farn CAG terfynol ar gyfer yr adroddiad hefyd yn cael ei ddarparu yn y cyfarfod di-briffio.
- 3.3 Os bydd y rheolwyr yn credu y gallant ddarparu gwybodaeth bellach ynglŷn â materion a godwyd yn y cyfarfod di-briffio, yna bydd Archwilio Mewnol yn cymryd y wybodaeth hon i ystyriaeth cyn llunio'r adroddiad drafft. Fodd bynnag, rhaid i'r wybodaeth ychwanegol fod yn berthnasol i'r materion a godwyd ac ar gael i Archwilio Mewnol er mwyn sicrhau fod cydymffurfio gyda'r cyfnod amser y penderfynwyd arno i ryddhau'r adroddiad drafft (h.y. 14 diwrnod o ddyddiad y cyfarfodydd di-briffio).
- 3.4 Ar ddiwedd y cyfarfod di-briffio gofynnir i gynrychiolwyr y rheolwyr (Pennaeth Gwasanaeth ac/neu Swyddog Cyswllt) fydd yn bresennol i arwyddo'r daflen di-briffio baratowyd gan Archwilio Mewnol fydd yn dweud bod y materion ynddi wedi eu trafod yn y cyfarfod hwn. Bydd cynrychiolydd y Rheolwyr yn arwyddo i gadarnhau'r materion a drafodwyd ac ni fydd angen unrhyw gytundeb ynglŷn â'u cywirdeb na'u cynnwys ar yr adeg hon.
- 3.5 Yn y cyfarfod cloi efallai y gwelir bod angen i'r Archwiliwr wneud gwaith pellach er mwyn gwirio rhai pwyntiau a godwyd neu i gyfeirio at wybodaeth bellach a nodwyd gan y rheolwyr. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd yr Archwiliwr yn cynnal y profion ychwanegol fydd eu hangen ac yn adolygu canfyddiadau'r archwiliad fel bo angen. Bydd cyfle'n cael ei roi i'r client benderfynu a ydyw'n dymuno derbyn atborth ar y pwyntiau ychwanegol hyn trwy ail gyfarfod di-briffio neu trwy gyfrwng adroddiad drafft ffurfiol.

#### 4. Adroddiadau Drafft

- 4.1 Bydd yr Adain Archwilio Mewnol yn rhyddhau adroddiad drafft o'r canfyddiadau, y casgliadau a'r argymhellion, i'r unigolion a nodir yn y Daflen Cynllunio Archwiliad **o fewn 14 diwrnod i'r cyfarfod di-briffio cychwynnol.**
- 4.2 Ar gyfer yr archwiliadau a nodir fel archwiliadau corfforaethol, bydd y cyfarfod di-briffio yn cael ei gynnal rhwng yr Archwiliwr a'r uwch reolwr sy'n arwain. Nodir yma ei bod yn bosibl na fydd y swyddog hwn mewn sefyllfa i ymateb i'r holl bwyntiau a godir ac y bydd angen ymgynghori gydag adrannau eraill. I bwrpas ymgynghori, caniateir rhagor o amser i ymateb i'r adroddiad drafft.

#### 5. Darparu Ymatebion

- 5.1 Disgwylir i ymatebion y rheolwyr, yn cynnwys y cyfnodau amser ac enw'r gweithiwr cyfrifol a enwebwyd ar gyfer gweithredu, gael eu dychwelyd i'r Adain Archwilio **o fewn 14 diwrnod i ddyddiad rhyddhau'r adroddiad drafft.** Os nad yw'n bosibl cwblhau erbyn yr amser cau a osodwyd, fe ddylai'r uwch reolwr perthnasol neu'r Swyddog Cyswllt gysylltu gyda'r Rheolwr Archwilio i drafod y mater ac i gytuno ar ddyddiad cau newydd.
- 5.2 Bwriad y Rheolwr Archwilio yw cytuno ar yr holl adroddiadau a roddir allan ac fe gaiff cleientiaid bob cyfle a chefnogaeth i ddarparu ymateb. Er mwyn i'r broses hon weithio, mae'n bwysig bod y rhai fydd yn ymateb i'r adroddiad drafft yn bresennol yn y cyfarfod di-briffio.
- 5.3 Oherwydd bod gan y Rheolwr Archwilio gyfrifoldeb i hysbysu ac i roi sicrwydd i'r Swyddog A151 ar safon rheolau mewnol sy'n gweithredu o fewn y systemau, bydd **copi o adroddiadau drafft** unrhyw archwiliad y rhoddwyd iddo farn archwilio 'Sicrwydd Coch' dan **fethodoleg CAG Archwilio Mewnol** yn cael ei anfon at y Swyddog A151. Os bydd canfyddiadau'r archwiliad yn dangos gweithgareddau anghyfreithlon, neu weithgareddau allai gyfateb i gamweinyddu, bydd copi o'r adroddiad yn cael ei anfon at Swyddog Monitro'r Cyngor. Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen cyfeirio adroddiadau at swyddogion eraill gyda chyfrifoldeb penodol dros feysydd yr ymdrinnir â hwy yn yr adroddiad.
- 5.4 Rhaid trin adroddiadau archwilio fel dogfennau cyfrinachol i'r gwasanaeth ac yn y cyfnod drafft ni fydd yr Archwiliwr yn ei ryddhau i unrhyw berson arall ar wahân i'r rhai a nodir fel derbynwyr yr adroddiad drafft, oni bai fod cytundeb rhwng yr Archwiliwr a'r uwch reolydd priodol. Fodd bynnag, mae hawl gan y Swyddog Adran 151 neu'r Swyddog Monitro i gael copïau o adroddiadau drafft. Mewn achosion o'r fath byddir hefyd yn darparu copïau o unrhyw ymatebion fydd wedi eu derbyn gan Wasanaethau.
- 5.5 Lle bo'r canfyddiad penodol ac/neu argymhelliad yn ymwneud â systemau neu reoliadau mewnol sy'n cael eu gweithredu gan Wasanaeth(au) arall yna bydd y cefndir i hynny, a chopi o'r canfyddiad penodol ac/neu argymhelliad yn cael ei anfon at y Gwasanaeth hwnnw am ei ymateb. Bydd unrhyw ymatebion a geir yn cael eu cynnwys wedyn yn yr adroddiad terfynol. Rhaid i'r gwasanaethau hyn barchu cyfrinachedd pob adroddiad archwiliad.
- 5.6 Dylai'r cleientiaid hefyd sicrhau nad oes neb yn cael gweld yr adroddiad ond y rhai a nodwyd fel derbynwyr yr adroddiad neu swyddogion eraill y bydd angen eu mewnbwn er mwyn i'r Gwasanaeth fedru darparu ymateb. Mae adroddiadau

drafft yn cael eu cyfri fel gwaith sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd ac ni ddylai rheolwyr eu cylchredeg yn eang.

- 5.7 Byddir yn rhoddi pob cyfle a chymorth i'r client ddarparu ymateb i adroddiadau drafft ond oni cheir ymateb anfonir nodyn atgoffa terfynol at yr uwch reolwr perthnasol a byddir yn adrodd am unrhyw ddiffyg ymateb i'r Prif Weithredwr ac i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant.
- 5.8 Mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant wedi gofyn am i adroddiad gael ei gynnwys yn Adroddiad Cynnydd y Rheolwr Archwilio ar yr holl adroddiadau drafft na chafwyd ymateb iddynt o fewn 3 mis i'w rhyddhau.

## **6. Rhyddhau Adroddiadau Terfynol**

- 6.1 **Bydd adroddiad terfynol yn cael ei ryddhau o fewn 7 diwrnod i dderbyn y cyfan o'r ymatebion gan y Rheolwyr.** Rhyddheir yr adroddiad terfynol i'r rhai a nodwyd ar y Daflen Cynllunio Archwiliad yn unig.
- 6.2 Er mai bwriad y Rheolwr Archwiliad yw cytuno ar gynnwys yr adroddiad terfynol gyda'r Adran Client efallai y bydd achlysuron lle nad yw hyn yn bosibl. Lle ceir achosion lle na fedrir cytuno ar yr adroddiad, bydd y rhesymau pam nad yw'r Adran Client yn cytuno gyda'r canfyddiadau, y casgliad neu'r argymhellion a wnaed yn cael eu nodi yn yr adroddiad. Bydd unrhyw anghytuno hefyd yn cael ei nodi yn y Cynllun Gweithredu Rheolaethol lle bydd y Rheolwr Archwiliad yn rhoi manylion paham ei fod yn credu fod risg yn parhau os na cheir gweithredu rheolaethol i liniaru neu i gael gwared â'r gwendid a ganfuwyd.
- 6.3 Caiff adroddiadau terfynol eu rhoi i'r uwch reolwyr ac / neu'r Rheolwr(wyr) priodol a nodwyd ar gychwyn yr archwiliad yn y Daflen Cynllunio Archwiliad, a'r Swyddog Adran 151. Yn ychwanegol at hyn, caiff crynodebau o'r holl adroddiadau eu cynnwys yn adroddiadau cynnydd y Rheolwr Archwilio i'r Pwyllgor Archwilio. Bydd Crynodeb Gweithredol o'r holl adroddiadau a gafodd farn 'Sicrwydd Coch' hefyd yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau cynnydd. Mae'r adroddiad cynnydd yn ddogfen gyhoeddus ac felly fe all y crynodeb gweithredol, gydag amser, fynd i'r parth cyhoeddus.
- 6.4 Bydd copïau o'r holl adolygiadau Archwilio Mewnol ac adroddiadau Sefydliad (nid cyfeiriadau) ar gael i aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant dim ond iddynt ofyn i'r Rheolwr Archwilio amdanynt. Darperir adroddiadau Archwilio Mewnol er defnydd yr Aelodau'n unig ac ni ddylid eu cyhoeddi neu eu cylchredeg ymhellach.
- 6.5 Fe all yr Archwiliwr Allanol hefyd ofyn am gopïau o adroddiadau Archwilio Mewnol Terfynol fel y gall adolygu safon y gwaith a wnaed. Bydd y gwerthusiad hwn yn penderfynu a fydd yr Archwiliwr Allanol yn cymryd sicrwydd o waith Archwilio Mewnol.
- 6.6 **Barn Archwilio** – Mae diffiniadau newydd o lefel sicrwydd ar gyfer 2015/16 yn gliriach ac yn fwy penodol ac yn rhoi sylw i'r flaenoriaeth a roddwyd i'r argymhellion, sef:-

LEFELAU SICRWYDD	DIFFINIAD
<b>SICRWYDD SYLWEDDOL</b>	Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn dda. Dim angen gweithredu o gwbl neu dim ond ar lefel isel. <b>Dim argymhellion blaenoriaeth uchel a hyd at 2 o argymhellion blaenoriaeth ganolig yn cael eu gwneud.</b>
<b>SICRWYDD RHESYMOL</b>	Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn rhesymol. Angen i reolwyr weithredu i lefel gymedrol i isel. <b>Dim argymhellion blaenoriaeth uchel yn cael eu gwneud.</b>
<b>SICRWYDD CYFYNGEDIG</b>	Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn gyfyngedig. Mae angen i reolwyr weithredu i lefel uchel i gymedrol. <b>Gwneir nifer o argymhellion blaenoriaeth uchel ac/neu ganolig.</b>
<b>SICRWYDD LLEIAF</b>	Mae diffyg sylweddol yn y trefniadau ar gyfer llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol. Mae angen i reolwyr weithredu ar lefel uchel mewn nifer o feysydd. <b>Gwneir nifer sylweddol o argymhellion blaenoriaeth uchel.</b>

## 7. Rheoli Ansawdd

- 7.1 Yn unol â gofynion y Safonau Archwilio Mewnol ar gyfer y Sector Cyhoeddus, rhaid i'r Rheolwr Archwilio ddatblygu a chynnal rhaglen sicrwydd ansawdd a gwella sy'n cynnwys yr holl agweddau ar weithgareddau archwilio mewnol. Rhaid dylunio'r rhaglen sicrwydd ansawdd a gwella fel y gellir gwerthuso cydymffurfiaeth gweithgareddau archwilio mewnol gyda'r Diffiniad o Archwilio Mewnol a'r Safonau a gwerthuso a yw archwilwyr mewnol yn defnyddio'r Côd Moeseg. Mae'r rhaglen hefyd yn asesu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y gweithgareddau archwilio mewnol ac yn nodi cyfleoedd ar gyfer eu gwella. (Safon PSIAS 1300)
- 7.2 Er mwyn caniatáu i safon y gwasanaeth gael ei fonitro ac i nodi gwelliannau y gellir eu cyflwyno, bydd holiadur ansawdd yn cael ei gyflwyno gyda'r adroddiad terfynol. Dylid cwblhau a dychwelyd yr holiadur **o fewn 7 diwrnod i ryddhau'r adroddiad terfynol.**

## 8 Cwynion

- 8.1 Cynigir trefn gwyno i gleientiaid ar gyfer amgylchiadau lle mae'r cleient yn ystyried mewn achos penodol bod safon y gwasanaeth a ddarparwyd yn is na'r disgwyl.
- 8.2 Mae disgwyl yn y lle cyntaf i'r achwynydd drafod y gŵyn yn anffurfiol gyda'r Rheolwr Archwilio i ganfod a oes modd datrys y sefyllfa yn foddhaol heb fod angen cymryd camau ffurfiol.



- 8.3 Lle nad yw'n bosib datrys y mater yn anffurfiol, dylai'r achwynydd (neu ei Reolwr Llinell) wneud cwyn ysgrifenedig i'r Rheolwr Archwilio yn egluro natur y gŵyn a disgwyliad y cleient. Lle mae'r gŵyn yn ymwneud â gwaith y Rheolwr Archwilio, dylid cyflwyno'r gŵyn i'r Prif Weithredwr.
- 8.4 O fewn amser rhesymol, fel y cyflëir i'r achwynydd, bydd y Rheolwr Archwilio (neu'r Prif Weithredwr) yn ystyried y gŵyn ac, os bydd angen, yn trafod y mater gyda'r achwynydd, aelodau o staff y Gwasanaeth, neu unrhyw swyddog arall, fel yn briodol.
- 8.5 O fewn yr amser penodedig, bydd y Rheolwr Archwilio (neu'r Prif Weithredwr) yn ymateb yn ysgrifenedig i'r gŵyn. Bydd yr ymateb yn egluro unrhyw gamau i'w cymryd o ganlyniad i'r gŵyn neu'n egluro pam na fydd camau penodol yn cael eu cymryd.
- 8.6 Lle mae'r achwynydd, neu'i Reolwr Llinell, yn anfodlon gyda chanlyniad y gŵyn yn dilyn cam 8.5 uchod, gall yr achwynydd, neu'i Reolwr Llinell wneud apêl yn erbyn y penderfyniad. Dylid gwneud yr apêl yn ysgrifenedig i'r Prif Weithredwr gan ddatgan y rhesymau am yr apêl, a bydd camau 8.4 a 8.5 yn cael eu dilyn gan y Prif Weithredwr wrth ddelio gyda'r apêl. Bydd penderfyniad y Prif Weithredwr ar yr apêl yn derfynol.

## **9. Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant**

- 9.1 Bydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant yn derbyn Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol ym mhob un o'i gyfarfodydd ac yn Adroddiad Blynnyddol y Rheolwr Archwilio. Bydd hyn yn caniatáu i'r Pwyllgor Archwilio fonitro perfformiad Archwilio Mewnol, yn ystod y flwyddyn, yn erbyn y Cynllun Gweithredu.
- 9.2 Mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant wedi gofyn am wybodaeth am yr holl adroddiadau drafft nad ydynt yn derbyn ymatebion oddi wrth reolwyr o fewn 3 mis i gyflwyno'r drafft diweddaraf.
- 9.3 Mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant hefyd yn derbyn manylion am yr holl adroddiadau Archwilio Mewnol Terfynol gyhoeddwyd ac sydd wedi derbyn barn archwilio 'Sicrwydd Coch'.

## **10. Proses Tracio Argymhellion**

- 10.1 Mae'n ofynnol bod y broses Archwilio Mewnol yn mynd ymhellach na rhyddhau adroddiad terfynol i sicrhau bod yr argymhellion a gytunwyd arnynt yn cael eu gweithredu o fewn y terfynau amser a osodwyd yng Nghynllun Gweithredu'r Adroddiad Terfynol. Ni welir gwelliant yn y fframwaith o reolaethau mewnol na gostyngiad i'r risgiau cysylltiedig oni fydd argymhellion yn cael eu gweithredu'n gyflawn.
- 10.2 Bydd pob adroddiad archwilio'n cynnwys rhestr yn nodi cynllun gweithredu y cytunwyd arno i'r rheolwyr ei weithredu. Bydd hwn yn sail i'r adolygiad neu'r ymweliad dilyn i fyny a'r nod yw adolygu gweithrediad yr argymhellion y cytunwyd arnynt.

- 10.3 Fel arfer, cynhelir ymweliad dilyn i fyny **o fewn 6 mis o ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad terfynol** a bydd yn asesu'r camau a gymerwyd gan reolwyr ac yn sefydlu effeithiolrwydd hynny. Rhaid i'r Adain wneud y defnydd gorau o'i hadnoddau a thargeddu ei hadnoddau i'r lle y mae fwyaf eu hangen. O ganlyniad, cytunwyd gweithredu proses ddilyn i fyny newydd fel a ganlyn:

LEFELAU SICRWYDD	PROSES NEWYDD
<b>SICRWYDD SYLWEDDOL</b>	Dim camau dilyn i fyny
<b>SICRWYDD RHESYMBOL</b>	Yn gyffredinol, dim ond yr argymhellion hynny sydd wedi eu rancio'n felyn ac yn uwch fydd yn cael eu hadolygu (Blaenoriaeth Ganolig ac Uchel). Fodd bynnag, mae hyn yn hyblyg, oherwydd gallai nifer o risgiau gwyrdd (isel) gyda'i gilydd ychwanegu at y risg yn gyffredinol. Dylid trafod yr argymhellion yn y cyfnod dilyn i fyny a'u cytuno gyda'r Prif Archwiliwr/Rheolwr Archwilio ar adeg adolygu'r archwiliad.
<b>SICRWYDD CYFYNGEDIG</b>	Cynhelir ymarfer dilyn i fyny llawn.
<b>SICRWYDD LLEIAF</b>	Cynhelir ymarfer dilyn i fyny llawn.

- 10.4 Lle bynnag y mae hynny'n bosibl, dylid cynnal ymarferion dilyn i fyny o'r ddesg er mwyn lleihau'r adnoddau a ddefnyddir.
- 10.5 Dylid cofnodi canlyniadau ymarferion dilyn i fyny yn y golofn briodol o'r cynllun gweithredu a dylid rhoi gwybod i'r cleient amdanynt mewn memo.
- 10.6 Lle mae rheolwyr wedi methu gweithredu argymhellion yn unol â'r cytundeb, dilynnir proses ffurfiol er mwyn adrodd i uwch reolwyr a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant ar y canfyddiadau hyn. Efallai y bydd angen cynnal **ail archwiliad dilyn i fyny** os bydd rheolwyr wedi methu gweithredu nifer sylweddol o argymhellion a oedd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad gwreiddiol. Lle mae angen rhoi sylw o hyd i nifer o argymhellion yn yr ail gam dilyn i fyny a heb unrhyw reswm amlwg am y diffyg cynnydd, bydd y mater yn cael ei gyfeirio at y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant i'w ystyried. Bydd angen i swyddog cyfrifol fynychu'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant i roi eglurhad am y diffyg cynnydd.
- 10.7 Wedi cwblhau ymarfer dilyn i fyny ac asesu nifer o argymhellion a weithredwyd ac a nodwyd fel rhai sy'n parhau i fod angen sylw, rhaid, lle mae hynny'n briodol, ddarparu barn archwilio ddiwygiedig. Dylid adrodd i reolwyr ar y farn archwilio ddiwygiedig.
- 10.8 Rhaid cadw copi o'r memo dilyn i fyny ar y gyriant a rennir i bwrpas cyfeirio.
11. **Monitro Ymarferion Dilyn i Fyny ar ôl Archwiliadau**

- 11.1 Ar gychwyn bob blwyddyn, bydd rheolwyr yn cwblhau 'Rhestr o Archwiliadau Dilyn i Fyny' fel sydd ynghlwm yn **Atodiad A** sy'n rhestru'r holl ymarferion dilyn i fyny yn y flwyddyn gyfredol. Bydd y Rhestr yn cynnwys y wybodaeth ganlynol:
- Disgrifiad o'r archwiliad
  - Cyfeirnod y Ffeil
  - Yr archwiliwr
  - Dyddiad yr archwiliad
  - Dyddiad dilyn i fyny
- 11.2 Ar ôl cwblhau'r ymarfer dilyn i fyny, bydd yr archwiliwr perthnasol yn cwblhau'r wybodaeth sy'n weddill ar y rhestr dilyn i fyny:
- Dyddiad dilyn i fyny gwirioneddol
  - Nifer yr argymhellion a wnaed
  - Nifer yr argymhellion sy'n parhau i fod angen sylw
  - Y farn archwilio ddiwygiedig

Cedwir y rhestr ar y gyriant G – Ffolder Rhestrau Dilyn i Fyny Archwiliadau

11.3 Yn ychwanegol at gwblhau 'Rhestr o Archwiliadau Dilyn i Fyny', rhaid i'r archwiliwr gwblhau'r Atodlen Dangosyddion Perfformiad sy'n golygu bod angen cofnodi nifer yr argymhellion a weithredwyd (**Gweler ynghlwm yn Atodiad B**). Cedwir y rhestr hon ar y gyriant 'G' - Ffolder Rhestrau DP.

## **12. Cylchredeg Gwybodaeth am Ymarferion Dilyn i Fyny ar gyfer Archwiliadau**

12.1 Dylid anfon y memo neu'r adroddiad dilyn i fyny at yr un swyddogion a oedd ar y rhestr gylchredeg ar gyfer yr adroddiad archwilio gwreiddiol yn ei ffurf derfynol.

## **ARCHWILIADAU MEWN SEFYDLIADAU**

Gydag Archwiliadau Sefydliad byddir yn gwneud gwaith archwilio mewn sefydliadau unigol o fewn y Cyngor (Ysgolion, Cartrefi Henoed a Phlant, Canolfannau Gofal Dydd, Canolfannau Hamdden, Llyfrgelloedd, Amgueddfeydd ac yn y blaen). Mae'r archwiliadau hyn yn dilyn rhaglen archwilio safonol fydd wedi ei datblygu ar gyfer pob sefydliad.

### **1. Paratoi ar gyfer yr Archwiliad**

1.1 Cyn dechrau pob blwyddyn ariannol, bydd copi o'r rhaglen archwilio berthnasol yn cael ei hanfon i'r Pennaeth Gwasanaeth. Dylai'r Pennaeth Gwasanaeth gysylltu gyda'r Pennaeth Gwasanaeth (Archwilio) i drafod unrhyw ychwanegiadau neu ddiwygiadau i'r rhaglen.

- 1.2 Cyn dechrau pob archwiliad, byddir yn cysylltu gyda'r Pennaeth Gwasanaeth a Phennaeth y Sefydliad a'u hysbysu bod yr Archwiliad wedi'i gynllunio. Bydd trefniadau ar gyfer ymweld â'r sefydliad yn cael eu gwneud gyda Phennaeth y Sefydliad unigol.

## **2. Cynnal yr Archwiliad**

- 2.1 Bydd y gwaith archwilio yn cael ei wneud yn y dull arferol gyda'r bwriad o wneud y gwaith mewn cyn lleied o amser ag sy'n bosibl o fewn y sefydliad.
- 2.2 Ar ddiwedd yr ymweliad bydd cyfarfod di-briffio'n cael ei gynnal gyda Phennaeth y Sefydliad i drafod canfyddiadau'r archwiliad.

## **3. Cytuno ar Adroddiadau Drafft a Darparu Ymateb**

- 3.1 Oherwydd bod angen i adroddiadau archwiliad ddilyn proses o siecio mewnol o fewn yr Adain Archwilio nid yw'n bosibl i adroddiadau archwilio "drafft" gael eu darparu i reolydd unigol y sefydliad yn ystod yr ymweliad, ac nid yw chwaith yn ymarferol i archwilwyr dychwelyd i sefydliadau i drafod yr adroddiad "drafft" (byddai'n gostus, yn mynd ag amser ac yn tarfu ar y sefydliadau). Dim ond mewn achosion eithriadol, lle bo unrhyw waith ychwanegol wnaed yn dilyn yr ymweliad neu'r archwiliad gan y Rheolwr Archwilio yn golygu fod canfyddiadau'r adroddiad drafft yn sylweddol wahanol i'r rhai drafodwyd yn y cyfarfod cloi, fydd yr Archwiliwr yn dychwelyd i'r sefydliad i drafod yr adroddiad drafft. Felly yn y mwyafrif o'r achosion, bydd gwaith archwilio sefydliadau yn dilyn y broses bresennol lle bydd adroddiad drafft yn cael ei anfon at uwch reolydd perthnasol y Gwasanaeth neu reolydd y sefydliad unigol.
- 3.2 Rhoddir 14 diwrnod i'r Uwch Reolydd yn y Gwasanaeth neu'r rheolwr sefydliad unigol ddarparu ymateb i'r materion a godir yn yr adroddiad drafft.
- 3.3 Mae'r broses ar gyfer diwygio a chytuno ar adroddiadau yr un fath i bob adroddiad archwilio.
- 3.4 Byddir yn delio gyda diffyg ymateb yn yr un dull â phob adroddiad arall h.y. fe roddir pob cyfle a chymorth i'r client ddarparu ymateb ond os na cheir ymateb byddir yn rhoddi nodyn atgoffa terfynol wedi'i gopïo i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol a byddir yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant am unrhyw ddiffyg ymateb.

## **4. Rhyddhau Adroddiadau Terfynol**

- 4.1 Bydd y broses ar gyfer rhyddhau adroddiadau terfynol yr un fath ag ar gyfer pob adroddiad arall.

## **5. Rheoli Ansawdd**

- 5.1 Mae'r gweithdrefnau ar gyfer rheoli ansawdd yr un fath ag ar gyfer pob adroddiad arall.

## **6. Dilyn Archwiliadau i Fyny**

- 6.1 Mae'r drefn ar gyfer dilyn i fyny yr un fath ag ar gyfer bob adroddiad arall ac eithrio yn achos archwiliadau ysgolion lle bydd proses ffurfiol yn cael ei dilyn i roi

gwybod am y canfyddiadau i uwch reolwyr yn yr Adran Addysg, Cadeirydd a chynrychiolydd yr awdurdod lleol ar y Bwrdd Llywodraethu mewn achos lle mae pennaeth ysgol wedi methu gweithredu'r argymhellion fel y cytunwyd. Efallai y bydd angen ail archwiliad dilyn i fyny os bydd pennaeth ysgol a'r Corff Llywodraethu wedi methu gweithredu nifer sylweddol o argymhellion yn yr adroddiad gwreiddiol.

- 6.2 Lle mae nifer o argymhellion yn parhau i fod angen sylw yn dilyn yr ail gam dilyn i fyny a dim rheswm amlwg i gyfrif am y diffyg cynnydd, bydd y mater yn cael ei gyfeirio i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant am sylw. I wneud hyn, bydd raid i bennaeth ysgol/Cadeirydd y Llywodraethwyr ac uwch reolwr o'r Adran Addysg fynychu'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant i roi eglurhad am y diffyg cynnydd.

## CRYNODEB DRAFFT O BROSESAU ARCHWILIO MEWNOL A RHAGLENNI AMSER

Cyf	Disgrifiad o'r Broses	Pryd	Person Cyfrifol	Cyfeiriad yn y Protocol
1	Cynllunio Archwiliad Blynyddol	Chwefror / Mawrth	Rheolwr Archwilio / Penaethiaid Gwasanaeth	1.1 to 1.2
2	Memorandwm Rhybudd Cychwynnol	O leiaf 7 niwrnod cyn dyddiad arfaethedig y cyfarfod sgopio	Rheolwr Archwilio / Uwch Archwiliwr Mewnol	1.3
3	Cyfarfod Sgopio	O leiaf 7 niwrnod cyn rhyddhau Taflen Cynllunio Archwiliad	Rheolwr Archwilio / Penaethiaid Gwasanaeth	1.4
4	Rhyddhau Taflen Cynllunio Archwiliad	O fewn 7 niwrnod i'r cyfarfod sgopio	Rheolwr Archwilio / Uwch Archwiliwr Mewnol	1.9
5	Llunio a chasglu gwybodaeth a data sydd eu hangen gan yr Archwiliwr ac wedi eu nodi yn y Daflen Cynllunio Archwiliad	Cyn dyddiad cychwyn y gwaith maes a nodir yn y Daflen Cynllunio Archwiliad	Penaethiaid Gwasanaeth / Swyddog Cyswllt Enwebedig	1.10
6	Cynnal yr archwiliad ac archwilio'r canlyniadau o fewn Archwilio Mewnol	O fewn y nifer o ddyddiau a nodir yn y Daflen Cynllunio Archwiliad	Archwiliwr Mewnol / Rheolwr Archwilio / Uwch Archwiliwr Mewnol	2.3
7	Cyfarfod Di-Briffio	O fewn 7 niwrnod i gwblhau'r gwaith maes Archwilio	Rheolwr Archwilio / Uwch Archwiliwr Mewnol / Archwiliwr / Penaethiaid Gwasanaeth / Swyddog Cyswllt Enwebedig	3.1 to 3.5
8	Rhyddhau'r adroddiad drafft	O fewn 14 diwrnod i'r cyfarfod di-briffio cychwynnol	Rheolwr Archwilio / Uwch Archwiliwr Mewnol	4.1 to 4.2
9	Ymatebion Rheolwyr	Adran o fewn 28 diwrnod i ddyddiad rhyddhau'r adroddiad drafft	Penaethiaid Gwasanaeth / Swyddog Cyswllt Enwebedig	5.1
10	Rhyddhau'r adroddiad terfynol	O fewn 7 niwrnod yn dilyn derbyn yr holl ymatebion gan reolwyr	Rheolwr Archwilio / Uwch Archwiliwr Mewnol	6.1
11	Cwblhau a dychwelyd holiadur Ansawdd Archwiliad Mewnol	O fewn 7 niwrnod i ryddhau'r adroddiad terfynol	Penaethiaid Gwasanaeth / Swyddog Cyswllt Enwebedig	7.2
12	Archwiliad Dilyn i Fyny	Fel arfer, o fewn 6 mis o ryddhau'r adroddiad terfynol	Rheolwr Archwilio / Uwch Archwiliwr Mewnol / Archwiliwr / Uwch Reolwyr perthnasol /	10.3

			Swyddogion Cyswllt Enwebedig	
--	--	--	---------------------------------	--

## Cofrestr Dilyn i Fyny 2015/16

Disgrifiad o'r Maes Archwilio	Gwasanaeth	Dyddiad yr Adroddiad	Nifer yr Argymhellion						Barn Archwilio	Dyddiad Dilyn I Fyny
			Uchel	Canolig	Isef	Suggestion	Cyfansw	Cytunwyd gan Reolwyr		
1 System Derbyn Arian 2014/15	Adnoddau	Apr-15	0	2	2	1	5	5	Gwyrdd	d/b
2 WIP Y Dreth Gyngor 2014/15	Adnoddau	Apr-15	0	4	4	0	8	8	GwyrddAmbr	Hyd 15
3 WIP Budd-daliadau Tai 2014/15	Adnoddau	Apr-15	0	5	6	1	12	12	GwyrddAmbr	Hyd 15
4 WIP Rhenti Tai 2014/15	Tai	Apr-15	0	2	3	1	6	6	Green	Hyd 15
5 WIP Prif System Gyfrifo 2014/15	Adnoddau	Jun-15	0	4	2	2	8	8	GwyrddAmbr	Rhag 15
6 WIP Trethi Cenedlaethol Annomestig 2014/15	Adnoddau	Apr-15	0	4	4	0	8	8	GwyrddAmbr	Hyd 15
7 WIP Cyflogres 2014/15	Adnoddau	May-15	0	4	6	0	10	8	GwyrddAmbr	Tach 15
8 WIP Dyledwyr Amrywiol 2014/15	Adnoddau	Apr-15	0	10	12	4	26	25	Coch Ambr	Hyd 15
9 Rheoli Trysorlys 2014/15	Adnoddau	Apr-15	0	3	2	2	7	7	Gwyrdd	D/B
10 Sefyllfa Dyledion Bryn Trewan	Tai	May-15	0	0	0	0	0	0	Codwyd 7 mater	Tach 15
11 Rheoli Parhad Busnes	Gwas Democraidaidd	Jul-15	5	2	0	0	7	7	Coch Ambr	Chwefror 16
12 LSB ESF Ardystio Grantiau	Adnoddau	May-15	0	0	0	0	0	0	D/B	D/B
13 Adfer Trychineb TGCh	Adnoddau	Jul-15	8	5	0	0	13	13	Coch	Chwefror 16
14 Incwm Marchnad a Rhenti	ynllunio a Gwarchod y Cyhoedd	Jul-15	0	3	1	0	4	2	GwyrddAmbr	Chwefror 16
15 Rheoli Risg	Corfforaethol	Sep-15	0	2	1	0	3	3	Rhesymol	Mawrth 16
16 Gydymffurfiaeth	Corfforaethol	Oct-15	0	5	2	0	7	7	Rhesymol	Ebrill 16
17										
18										
19										
20										
21										
22										
23										
24										
25										



RHESTR O ARCHWILIADAU DILYN I FYNY 2015/2016

	Disgrifiad	Archwilwr	Dyddiad yr Archwiliad	Dyddiad Dilyn I Fyny	Nifer yr Argymhellion	Argymhellion sy'n parhau i fod angen sylw a WIP	Uchel	Canolig	Isel	Barn Archwilio Wreiddiol	Barn Archwilio Ddiwygiedig
1											
2											
3											
4											
5											
6											
7											
8											
9											
10											
11											
12											
13											
14											
15											
16											
19											

Tudalen 175

TOTALS										
--------	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--